

Adolygiad Addysg Uwch: Cymru o Goleg Gŵyr Abertawe

Mai 2016

Cynnwys

Yr adolygiad yma	1
Beirniadaeth ddiwygiedig - Mehefin 2017	2
Canfyddiadau allweddol	5
Beirniadaethau ASA am Goleg Gŵyr Abertawe	5
Nodweddion o arfer da	5
Argymhellion.....	5
Ynghylch Goleg Gŵyr Abertawe	6
Esboniad o'r canfyddiadau am Goleg Gŵyr Abertawe	7
1 Y Feirniadaeth am: Y modd y cynhelir safonau academiaidd y dyfarniadau a gynigir ar ran cyrff dyfarnu graddau a/neu sefydliadau dyfarnu eraill.....	8
2 Y Feirniadaeth am: Ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr	22
3 Y Feirniadaeth am: Ansawdd yr wybodaeth am y cyfleoedd dysgu	44
4 Y Feirniadaeth am: Y gwelliant yn y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr	48
5 Sylwadau am Ryngwladoli.....	51
Rhestr termau.....	52

Yr adolygiad yma

Mae hwn yn adroddiad Adolygiad Addysg Uwch: Cymru a weithredwyd gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (ASA) yng Ngholeg Gŵyr Abertawe. Cafwyd yr adolygiad rhwng 16 a 18 Mai 2016 ac fe'i weithredwyd gan dîm o dri adolygwr, sef:

- Mr Colin Stanfield
- Dr David Wright
- Miss Lucy Bannister (adolygwr sy'n fyfyrwr).

Prif bwrpas yr adolygiad oedd ymchwilio'r addysg uwch a ddarperir gan Goleg Gŵyr Abertawe a barnu a yw ei safonau a'i hansawdd academiaidd yn cyflawni disgwyliadau'r DU ai peidio.

Y disgwyliadau hyn yw'r datganiadau yng [Nghod Ansawdd Addysg Uwch y DU](#) (y Cod Ansawdd)¹ sy'n nodi beth mae holl ddarparwyr addysg uwch y DU yn ei ddisgwyl ganddynt eu hunain ac felly gan ei gilydd, a'r hyn y gall y cyhoedd ei ddisgwyl ganddynt.

Yn yr Adolygiad Addysg Uwch: Cymru, mae tîm adolygu ASA:

- yn gwneud beirniadaethau am
 - y modd y gosodir ac y cynhelir safonau academiaidd
 - ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr
 - yr wybodaeth a ddarperir am ddarpariaeth addysg uwch
 - y gwelliant yn y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr
- yn rhoi sylwadau ar agwedd y sefydliad tuag at ryngwladoli
- yn gwneud argymhellion
- yn nodi nodweddion o arfer da
- yn cadarnhau'r camau gweithredu y mae'r darparwr yn eu cymryd neu'n bwriadu eu cymryd.

Gallwch weld crynodeb o'r canfyddiadau yn yr adran yn cychwyn ar dudalen 5. Rhoddwyd [esboniadau o'r canfyddiadau](#) mewn paragraffau wedi'u rhifo yn yr adran yn cychwyn ar dudalen 7.

Wrth adolygu Coleg Gŵyr Abertawe, mae'r tîm adolygu wedi ystyried rhyngwladoli hefyd fel un o themâu'r adolygiad.

Mae gwefan ASA yn rhoi rhagor o wybodaeth [am ASA](#) a'i chenhadaeth.² Mae adran benodol yn esbonio'r dull ar gyfer gwneud [Adolygiad Addysg Uwch: Cymru](#)³ ac mae ganddi ddolenni at y llawlyfr adolygiad a dogfennau defnyddiol eraill. I gael esboniad o'r termau gwelwch y [Rhestr Termau](#) ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

¹ Cyhoeddir Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU (yn y Saesneg yn unig ar hyn o bryd) ar: www.qaa.ac.uk/quality-code.

² Gwefan ASA: www.qaa.ac.uk/cy/aboutus/pages/wales.

³ Y gwe-dudalennau am Adolygiad Addysg Uwch: Cymru: www.qaa.ac.uk/cy/reviewsandreports/pages/higher-education-review-wales.aspx.

Beirniadaeth ddiwygiedig - Mehefin 2017

Cyflwyniad

Ym mis Mai 2016, gwnaethpwyd Adolygiad Addysg Uwch: Cymru o Goleg Gŵyr Abertawe (y Coleg), a derbyniodd y beirniadaethau dilynol: mae'r modd y cynhelir safonau academiaidd y dyfarniadau a gynigir ar ran ei gyrff dyfarnu graddau a'i sefydliad dyfarnu arall yn cyflawni disgwyliadau'r DU; mae ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr yn cyflawni disgwyliadau'r DU; mae ansawdd yr wybodaeth am y cyfleoedd dysgu'n gofyn gwelliant i gyflawni disgwyliadau'r DU; ac mae'r gwelliant yn y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr yn cyflawni disgwyliadau'r DU.

Yn dilyn beirniadaethau negyddol, mae ASA yn gwneud gwaith dilyniant ffurfiol, sy'n cynnwys monitro cynllun gweithredu a gynhyrchir gan y Coleg mewn ymateb i ganfyddiadau'r adroddiad.

Ym mis Mehefin 2016, cyhoeddodd y Coleg gynllun gweithredu sy'n nodi sut mae'n bwriadu ymdrin â'r argymhellion a'r arferion da a nodwyd yn yr adolygiad, ac mae wedi bod yn gweithio dros y 12 mis diwethaf i ddangos sut mae wedi gweithredu'r cynllun hwnnw.

Yn rhan o'r broses ddilyniant, derbyniwyd diweddariadau ddwywaith am y cynnydd a wnaethpwyd a daeth y broses i ben gyda dadansoddiad pen desg gan ddau adolygwr o adroddiadau cynnydd y Coleg a'r dystiolaeth ddogfennol gefnogol.

Cadarnhaodd y dadansoddiad pen desg bod y Coleg wedi ymdrin yn llwyddiannus â'r argymhellion yn y maes beirniadaeth ynghylch ansawdd yr wybodaeth am y cyfleoedd dysgu, a'i fod wedi lledaenu'r arferion da a nodwyd yn yr adolygiad yn briodol. Hefyd, cwblhawyd o fewn yr amseriadau gofynnol y camau gweithredu hynny oedd yn ymateb i'r argymhellion yn ymwneud â'r modd y cynhelir safonau academiaidd y dyfarniadau, ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr a'r gwelliant yn y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr, yr oeddent oll wedi derbyn beirniadaethau positif. Cyfrannodd hyn at y datblygiad a wnaed yn y maes beirniadaeth ynghylch ansawdd yr wybodaeth am y cyfleoedd dysgu.

Penderfyniad Bwrdd ASA a'r beirniadaethau diwygiedig

Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Coleg wedi gwneud digon o gynnydd i argymhell i Fwrdd ASA y dylid addasu'r feirniadaeth ynghylch yr wybodaeth am y cyfleoedd dysgu. Derbyniodd Bwrdd ASA argymhelliad y tîm ac mae'r feirniadaeth wedi cael ei diwygio'n ffurfiol erbyn hyn. Dyma'r beirniadaethau am ddarpariaeth y Coleg erbyn hyn.

- Mae'r modd y cynhelir safonau academiaidd y dyfarniadau a gynigir ar ran ei gyrff dyfarnu graddau a'i sefydliad dyfarnu arall yn **cyflawni** disgwyliadau'r DU.
- Mae ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr yn **cyflawni** disgwyliadau'r DU.
- Mae ansawdd yr wybodaeth am y cyfleoedd dysgu'n **cyflawni** disgwyliadau'r DU.
- Mae'r gwelliant yn y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr yn **cyflawni** disgwyliadau'r DU.

Gellir ystyried bod yr adolygiad wedi'i lofnodi i ddangos ei fod yn gyflawn.

Canfyddiadau'r broses ddilyniant

Canfu'r tîm adolygu bod y Coleg wedi gwneud cynnydd yn erbyn yr argymhellion fel a ganlyn.

Yr argymhelliad - Disgwyliad A3.1

Mewn perthynas â phrosesau ar gyfer cymeradwyo rhaglenni, mae'r Coleg wedi adolygu ei ffurflen gynnig rhaglen ac mae'n cynnwys adrannau newydd erbyn hyn sy'n gofyn i dimau rhaglen roi sylwadau am aliniad y cynnig gyda'r *Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon* (FHEQ) a'r Datganiad Meincnodi Pwnc perthnasol. Cymeradwywyd y broses newydd gan y Grŵp Cwricwlwm Addysg Uwch a Rheoli Ansawdd ac aeth y Grŵp ymlaen i gyfathrebu'r broses i'r Arweinwyr Cwricwlwm drwy'r Grŵp Gweithredu Addysg Uwch.

Yr argymhelliad - Disgwyliadau B1 ac A3.1

Mewn perthynas â sicrhau bod y rhaglenni i gyd wedi derbyn cymeradwyaeth lawn cyn i fyfyrwyr gofrestru arnynt, mae gan y Coleg drefn ddilysu fewnol newydd sydd wedi'i chymeradwyo gan y Grŵp Cwricwlwm Addysg Uwch a Rheoli Ansawdd. Rhaid i Grŵp Cynllunio Strategol gymeradwyo cynigion am raglenni newydd, a rhaid i Banel Dilysu Mewnol gymeradwyo unrhyw raglenni Pearson newydd. Mae'r Coleg yn cynnal digwyddiad cynllunio cwricwlwm ar gyfer pob maes dysgu, ac o ganlyniad cynhyrchir rhestr o'r cyrsiau y bydd y Coleg yn eu rhedeg yn y flwyddyn academaidd sy'n dod. Mae Swyddogion Gweinyddu'r cyfadrannau'n gwirio bod yr holl raglenni a restrir yn cael eu cymeradwyo'n fewnol ac yn allanol; dim ond wedyn y cynhyrchir y codau cwrs sy'n galluogi myfyrwyr i gofrestru. Yn ogystal, ni all staff y Coleg farchnata nac ychwanegu rhaglen addysg uwch newydd i UCAS heb gymeradwyaeth gan y Rheolwr Addysg Uwch.

Yr argymhelliad - Disgwyliad B2

Mewn perthynas â chydabod dysgu blaenorol, mae'r Coleg erbyn hyn yn rhoi'r wybodaeth berthnasol i'r ymgeiswyr ar gardiau cwrs ac ar dudalennau ei wefan am y cyrsiau - er nad yw rhai o'r dolenni'n gweithio. Er hynny, mae'r Coleg erbyn hyn yn pennu'r unigolion a'r pwyllgorau sy'n gyfrifol am ansawdd yr wybodaeth a ddarperir i'r myfyrwyr. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad nad yw'r camau a gymerwyd mewn ymateb i'r argymhelliad yma wedi'u gweithredu'n gwbl effeithiol.

Yr argymhelliad - Disgwyliad B5

Mewn perthynas â chynnwys y myfyrwyr drwy gyfrwng y Strategaeth Cynnwys Dysgwyr, mae'r Coleg wedi datblygu Fframwaith Cynnwys Dysgwyr ar gyfer myfyrwyr addysg uwch, sy'n nodi sut y bydd y Coleg yn datblygu cyfranogaeth myfyrwyr addysg uwch yn y prosesau o gymeradwyo rhaglenni ac adolygu modiwlau, a sut y bydd yn hyfforddi cynrychiolwyr y myfyrwyr. Mae hefyd yn egluro'r cyfrifoldebau i ymgysylltu â'r myfyrwyr, a'r pwyllgorau hynny a allai gynnwys cynrychiolwyr myfyrwyr. Cedwir goruchwyliaeth o'r Fframwaith ar lefel uwch. Mae ymgysylltiad priodol â'r myfyrwyr ar lefel y cyrsiau.

Yr argymhelliad - Disgwyliad C

Mae'r Coleg wedi cymryd camau priodol i sicrhau bod yr wybodaeth y mae'n ei rhoi i'w gynulleidfaoedd targed am y cyfleoedd dysgu y mae'n eu cynnig yn addas, yn hygyrch ac yn ddibynadwy. Mae wedi cyflwyno Cynlluniwr Gwybodaeth am Addysg Uwch a dogfen Rolau a Chyfrifoldebau sy'n rhestru'r camau gweithredu sy'n ofynnol i sicrhau cywirdeb a phrydlondeb yr wybodaeth. Mae gan y Rheolwr Addysg Uwch gyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau ansawdd yr wybodaeth, gan weithio mewn partneriaeth â chydweithwyr ym meysydd marchnata, derbyn ac academaidd. Mae'r Coleg wedi archwilio llawlyfrau ei raglenni ac wedi gosod safonau gofynnol ar gyfer yr wybodaeth sydd ar gael ar ei rith-amgylchedd dysgu, ac mae'n rhannu adroddiadau'r arholwyr allanol gyda'r myfyrwyr erbyn hyn. Mae cofnodion y Grŵp Cwricwlwm Addysg Uwch a Rheoli Ansawdd a'r Grŵp Gweithredu Addysg Uwch yn

cadarnhau bod y Coleg yn rhoi'r pwysigrwydd dyladwy i ansawdd yr wybodaeth. Mae cofnod o'r addasiadau'n helpu gyda gwirio ac archwilio'r wybodaeth. Er bod y tîm adolygu wedi nodi rhywfaint o anghysondeb rhwng gwefan y Coleg a'i gofnodion UCAS, penderfynodd y tîm fod yr anghysondebau hyn yn dangos bod angen addasu neu ddiweddarau manylion mewn dogfennaeth lle na fydd yr addasiad yn gofyn neu'n creu newid strwythurol, gweithredol neu drefniadol mawr. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Coleg yn gwneud digon o gynnydd yn erbyn yr argymhelliad yma.

Yr argymhelliad - Disgwyliad B8

Mewn perthynas â diffinio proses fewnol ar gyfer monitro rhaglenni, mae'r Coleg wedi cyflwyno cylch ansawdd newydd o fonitro ac adolygu rhaglenni erbyn hyn. Mae'r Cynlluniwr Ansawdd Addysg Uwch yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer diffinio'r prosesau mewnol, y rolau a'r cyfrifoldebau sy'n ymwneud â monitro ac adolygu'r rhaglenni. Mae'r Cynlluniwr yn amlinellu sut mae prosesau'r Coleg yn cysylltu â phrosesau ei gyrff dyfarnu, ac yn yr un modd, sut mae'r broses o fonitro ac adolygu rhaglenni'n cysylltu ag adborth y myfyrwyr, byrddau asesu a phrosesau safoni, gan gynnwys arholi allanol. Erbyn hyn, gan y Rheolwr Addysg Uwch y mae'r cyfrifoldeb cyffredinol am y broses, tra bo gan y Rheolwr Ansawdd gyfrifoldeb am weithredu'r broses ac mae wedi rhoi gwybod i'r staff am broses y cylch ansawdd.

Y nodwedd o arfer da - Disgwyliad B2

Mewn perthynas â'r llyfryn cynhwysfawr am ei Gynnig Cyrsiau Addysg Uwch, mae'r Coleg wedi parhau i ddefnyddio'r llyfryn ac i'w ddarparu i'r myfyrwyr, ac mae'n datblygu llyfryn electronig sydd wedi'i deilwra'n arbennig i fyfyrwyr rhan amser, y mae'n bwriadu ei gyflwyno erbyn Ebrill 2017.

Y nodwedd o arfer da - Disgwyliad B3

Mewn perthynas â datblygiad staff, mae'r Coleg yn parhau i bwysleisio pwysigrwydd datblygu'r staff yn effeithiol. Mae'n ehangu ei raglen hyfforddi 'Bridging the Gap', sy'n rhaglen benodol i staff addysg uwch, gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru. Mae'r gyfres hon o weithgareddau, mewn partneriaeth â dwy o'i brifysgolion partner, yn archwilio gwahaniaethu mewn addysgu ar raglenni addysg uwch. Ers yr adolygiad, mae dau aelod o staff y Coleg wedi dod yn gymrodorion yr Academi Addysg Uwch, ac mae'r Coleg wedi gallu cynnig bwrsariaethau i bedwar aelod o'i staff i wneud gweithgareddau ysgolheigaidd.

Y nodwedd o arfer da - Disgwyliad B5

Mewn perthynas â chynhadledd y myfyrwyr, mae'r Coleg wedi parhau i gynnal cynhadledd myfyrwyr gyfunol i fyfyrwyr addysg bellach ac uwch, ac mae'n monitro maint ei garfan o fyfyrwyr addysg uwch er mwyn asesu a allai digwyddiad ar wahân fod yn opsiwn ymarferol yn y dyfodol. Canolbwyntiodd y gynhadledd ar 'baratoi i lwyddo' ac ar y Fframwaith Cynnwys Dysgwyr, ac roedd yn cynnwys cyfle i'r myfyrwyr wneud bid am arian i wella eu profiad yn y Coleg. Mae'r Coleg wedi pennu ymhellach sut i wella'r gynhadledd ar gyfer 2017-18.

Y nodwedd o arfer da - Gwelliant

Mewn perthynas â'r eiriolwyr addysg uwch, mae'r Coleg wedi parhau'r rôl ymhob maes cymorth proffesiynol; canfu'r adolygiad esiamplau o eiriolwyr sy'n parhau i bennu ac ymdrin ag anghenion penodol y myfyrwyr addysg uwch.

Canfyddiadau allweddol

Beirniadaethau ASA am Goleg Gŵyr Abertawe

Rhoddodd tîm adolygu ASA y beirniadaethau dilynol am y ddarpariaeth addysg uwch yng Ngholeg Gŵyr Abertawe.

- Mae'r modd y cynhelir safonau academiaidd y dyfarniadau a gynigir ar ran ei gyrff dyfarnu graddau a'i sefydliad dyfarnu arall yn **cyflawni** disgwyliadau'r DU.
- Mae ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr yn **cyflawni** disgwyliadau'r DU.
- Mae ansawdd yr wybodaeth am y cyfleoedd dysgu'n **gofyn gwelliant i gyflawni** disgwyliadau'r DU.
- Mae'r gwelliant yn y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr yn **cyflawni** disgwyliadau'r DU.

Nodweddion o arfer da

Canfu tîm adolygu ASA y nodweddion o **arfer da** dilynol yng Ngholeg Gŵyr Abertawe.

- Y llyfryn defnyddiol a chynhwysfawr am ei gynnig addysg, sy'n helpu myfyrwyr i fynd i addysg uwch (Disgwyliad B2).
- Hyrwyddiad ac ymrwymiad y Coleg i ddatblygiad staff sy'n effeithio'n bositif ar ddysgu'r myfyrwyr (Disgwyliad B3).
- Cynhadledd y myfyrwyr, sy'n hybu ymgysylltiad myfyrwyr gyda'u cyfleoedd dysgu (Disgwyliad B5).
- Rôl yr eiriolwyr addysg uwch, sy'n gwella'r cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr (Gwelliant).

Argymhellion

Mae tîm adolygu ASA yn gwneud yr **argymhellion** dilynol i Goleg Gŵyr Abertawe.

Erbyn mis Hydref 2016:

- ystyried aliniad y cynnig yn eglur â fframweithiau cenedlaethol ar gyfer cymwysterau rhaglen fel rhan o'i weithdrefnau mewnol ar gyfer cymeradwyo rhaglenni (Disgwyliad A3.1)
- sicrhau bod ei raglenni i gyd wedi derbyn cymeradwyaeth lawn cyn i'r myfyrwyr gychwyn eu hastudiaethau (Disgwyliadau B1 ac A3.1)
- sicrhau ei fod yn egluro i'r myfyrwyr yn ystod y broses ymgeisio bod cyfle i bobl dderbyn cydnabyddiaeth i'w dysgu blaenorol (Disgwyliad B2)
- sicrhau bod y Strategaeth Cynnwys Dysgwyr yn cynnwys y myfyrwyr yn systematig ar lefelau strategol a gweithredol (Disgwyliad B5)
- sicrhau bod yr wybodaeth y mae'n ei rhoi i'w gynulleidfaoedd targed am y cyfleoedd dysgu y mae'n eu cynnig yn addas, yn hygyrch ac yn ddibynadwy (Disgwyliad C).

Erbyn mis Rhagfyr 2016:

- diffinio'r prosesau mewnol, y rolau a'r cyfrifoldebau sy'n ymwneud â monitro ac adolygu'r rhaglenni, er mwyn sicrhau a gwella ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr (Disgwyliad B8).

Ynghylch Goleg Gŵyr Abertawe

Sefydlwyd Coleg Gŵyr Abertawe (y Coleg) ym mis Awst 2010 drwy gyfuno Coleg Gorseinon a Choleg Abertawe. Mae gan y Coleg bedwar campws yn ardal Abertawe, ac mae ei brif gampws yn Nhycoch yn sylfaen ar gyfer ei raglenni addysg uwch. Mae gan y Coleg 12,500 o fyfyrwyr, ac mae ganddo drosiant o £37 miliwn y flwyddyn. Ar hyn o bryd mae ganddo 403 o fyfyrwyr addysg uwch, ac mae 230 ohonynt yn astudio ar raglenni o fewn cwrmpas yr adolygiad yma.

Gweledigaeth y Coleg yw sicrhau mai hwn yw'r coleg gorau yng Nghymru a'i nod yw cyflawni hynny drwy ystod o fesurau, gan gynnwys sicrhau rhagoriaeth mewn arweinyddiaeth, staff, cwricwlwm, profiadau dysgu ei fyfyrwyr, cyfleoedd i'w fyfyrwyr a gwasanaethau i gyflogwyr. Y Pennaeth a'r Grŵp Cynllunio Strategol sy'n gosod cyfeiriad strategol y Coleg, dan oruchwyliaeth Bwrdd Corfforaethol y Coleg. Mae Cynllun Strategol y Coleg yn amlygu'r safonau uchel y mae'n bwriadu i ddysgwyr eu cyrraedd, gyda diwylliant wedi'i seilio ar berfformiad ac agwedd strategol tuag at bartneriaeth.

Mae addysg uwch wedi bod yn ddarpariaeth arbenigol yn y Coleg, sy'n canolbwyntio i raddau mawr ar raglenni Diploma Cenedlaethol Uwch (HND) a rhaglen Tystysgrif Broffesiynol mewn Addysg i Raddedigion (TBAR), ond mae'n ehangu ei ystod o raglenni erbyn hyn, ac i gefnogi'r ehangiad yma mae wedi gwneud penodiad allweddol, sef Rheolwr Addysg Uwch, sydd ar hyn o bryd yn datblygu Cynllun Strategol ar gyfer Addysg Uwch. Arweinydd strategol cwricwlwm y Coleg yw'r Is-Bennaeth Gwasanaethau Academaidd, ac, yn weithredol, rheolir y rhaglenni yn ôl y meysydd dysgu gan y deoniaid perthnasol. Mae Grŵp Gweithrediadau Addysg Uwch yn dod â staff swyddogaethol allweddol at ei gilydd, a cheir yr oruchwyliaeth strategol gan y Grŵp Cwricwlwm Addysg Uwch a Rheoli Ansawdd. Mae gan bob adran swyddogaethol, megis yr adran dderbyniadau neu'r gwasanaeth llyfrgell, 'eiriolwr addysg uwch' sy'n hyrwyddo anghenion y myfyrwyr addysg uwch. Mae cynlluniau ar y gweill i wella'r cyfleusterau i fyfyrwyr addysg uwch, gan gynnwys canolfan benodol ar gampws Tycoch, a fydd yn rhoi ffocws i'w hanghenion ac amgylchedd sy'n galluogi i ddiwylliant addysg uwch gael ei ddatblygu ymhellach.

Mae gan y Coleg dair prifysgol partner y mae'n cynnig rhaglenni ar etholfraint a rhaglenni eraill gyda nhw: Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant; Prifysgol De Cymru; a Phrifysgol Abertawe. Mae hefyd yn cynnig rhaglenni Tystysgrif Genedlaethol Uwch (HNC) a Diploma Cenedlaethol Uwch (HND) drwy Pearson. O ystyried y ddarpariaeth gyfan, mae'r Coleg yn cynnig naw rhaglen gradd sylfaen, chwe rhaglen HND a phedair rhaglen HNC, ynghyd â rhaglen TBAR a rhaglen Paratoi i Addysgu yn y Sector Dysgu Gydol Oes. Mae 113 o fyfyrwyr rhan amser a 117 o fyfyrwyr llawn amser ym maes addysg uwch; dull o astudio sy'n cynyddu.

Roedd y Coleg yn rhan o'r Adolygiadau Addysg Uwch: Cymru o Brifysgol Abertawe, Prifysgol De Cymru a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, a phenhwyd arferion da yn y ddwy brifysgol olaf am eu trefniadau partneriaeth. Yr adolygiad presennol gan ASA yw'r adolygiad cyntaf o'r Coleg ei hun. Mae'r Coleg, yn ei hunanwerthusiad, wedi ystyried hyn yn weithgaredd datblygiadol pwysig.

Esboniad o'r canfyddiadau am Goleg Gŵyr Abertawe

Mae'r adran hon yn esbonio canfyddiadau'r adolygiad yn fwy manwl.

Mae termau a allai fod yn anghyfarwydd i rai darllenwyr wedi'u cynnwys mewn [rhestr termau byr](#) ar ddiwedd yr adroddiad hwn. Mae [rhestr termau](#) llawnach ar gael ar wefan ASA, a gallwch weld diffiniadau ffurfiol o dermau penodol yn y disgrifiad gweithredol a'r llawlyfr ar gyfer y [dull adolygu](#), ac hefyd ar wefan ASA.

1 Y Feirniadaeth am: Y modd y cynhelir safonau academiaidd y dyfarniadau a gynigir ar ran cyrff dyfarnu graddau a/neu sefydliadau dyfarnu eraill

Disgwyliad (A1): Er mwyn sicrhau safonau academiaidd trothwy, mae cyrff dyfarnu graddau'n:

a) sicrhau bod gofynion y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon yn cael eu cyflawni trwy'r camau canlynol:

- gosod eu cymwysterau ar lefel briodol y fframwaith ar gyfer cymwysterau addysg uwch sy'n berthnasol
- sicrhau bod canlyniadau dysgu'r rhaglen yn alinio â'r disgrifydd cymhwyster perthnasol yn y fframwaith ar gyfer cymwysterau addysg uwch sy'n berthnasol
- enwi'r cymwysterau yn unol â'r confensiynau teitlo a nodir yn y fframweithiau ar gyfer cymwysterau addysg uwch
- dyfarnu cymwysterau i ddynodi cyflawni canlyniadau dysgu'r rhaglen a ddiffinnir yn bositif

b) ystyried arweiniad ASA ar nodweddion cymhwyster

c) lle maent yn dyfarnu credydau'r DU, aseinio gwerthoedd credyd a llunio rhaglenni sy'n alinio â manylebau'r fframwaith credydau cenedlaethol sy'n berthnasol

d) ystyried y Datganiadau Meincnodi Pwnc perthnasol.

Cod Ansawdd, Pennod A1: Pwyntiau Cyfeirio'r DU ac Ewrop ar gyfer Safonau Academiaidd

Y canfyddiadau

1.1 Mae'r cyrff dyfarnu a'r sefydliad dyfarnu, y mae'r Coleg yn gweithio mewn partneriaeth â nhw, yn gosod safonau academiaidd y rhaglenni, ac mae'r Coleg yn gyfrifol am gynnal y safonau hynny.

1.2 Mae cyfrifoldebau'r Coleg a'r partneriaid dyfarnu wedi'u nodi yn y cytundebau a'r memoranda cyd-ddealltwriaeth sydd gan y Coleg gyda Phrifysgol De Cymru, Prifysgol Abertawe, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (PCYDDS), a Pearson.

1.3 Yn ogystal, dangosir cyfrifoldebau'r Coleg yn glir mewn rhestr wirio o gyfrifoldebau gan bob corff dyfarnu neu'r sefydliad dyfarnu.

1.4 Mae gan yr uwch reolwyr, y staff addysgu a'r staff cymorth ddealltwriaeth eglur o'u cyfrifoldebau.

1.5 O ystyried yr eglurhad clir o'r cyfrifoldebau sydd gan y Coleg am gynnal safonau academiaidd, a dealltwriaeth y staff yn y Coleg o'r cyfrifoldebau hyn, byddai'r trefniadau sydd ar waith yn caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni.

1.6 Profodd y tîm adolygu'r Disgwyliad hwn drwy adolygu dogfen hunanwerthuso a gyflwynwyd gan y Coleg ar gyfer yr adolygiad yma, a thrwy ystyried y cytundebau a'r

memoranda cydweithrediad sydd gan y Coleg gyda'i gyrff dyfarnu, ochr yn ochr â'r rhestrau gwirio o gyfrifoldebau i bob partner. Yn yr un modd, roedd y tîm yn ystyried y cytundeb sydd gan y Coleg gyda'i sefydliad dyfarnu yn erbyn y rhestr wirio berthnasol o gyfrifoldebau. Cyfarfu'r tîm hefyd â staff uwch, athrawon a staff cymorth y Coleg, a thiworiaid cyswllt o ddau gorff dyfarnu, i ystyried y Disgwyliad hwn. Hefyd, ystyriwyd adroddiadau gan yr arholwyr allanol a'r gwirwyr safonau.

1.7 Mae'r Coleg yn gweithio'n agos gyda'i gyrff dyfarnu i sicrhau bod unrhyw swyddogaethau dirprwyedig yn cael eu gweithredu yn unol â gofynion y corff dyfarnu perthnasol. Mae'n cael ei gefnogi yn y rôl yma gan ei gysylltiadau agos â'i gyrff dyfarnu ar lefel strategol a lefel gyrsiol.

1.8 Ar gyfer ei raglenni Cenedlaethol Uwch, mae gan y Coleg berthynas effeithiol hirsefydlog gyda Pearson. Mae'r staff y mae'r Coleg yn eu henwebu mewn sefyllfa dda i gefnogi tim au addysgu.

1.9 Yn gyffredinol, mae'r Coleg yn defnyddio rhaglenni a modiwlau sydd wedi cael eu datblygu gan ei gyrff dyfarnu neu gan Pearson. Ond, ar gyfer y rhaglen Gradd Sylfaen mewn Gwyddor Ddadansoddol a Fforensig, mae'r Coleg wedi datblygu dau fodiwl mewn partneriaeth â Phrifysgol De Cymru. Cafodd y staff yn y Coleg a gymerodd ran yn y datblygiad yma eu cefnogi a'u tywys yn y gweithgaredd yma gan gydweithwyr o Brifysgol De Cymru.

1.10 Mae'r Coleg yn monitro'r safonau ar gyfer ei raglenni ar etholfraint a'i raglenni a ddilysir yn unol â disgwyliadau ei gyrff dyfarnu, a defnyddir dulliau tebyg ar gyfer ei raglenni Cenedlaethol Uwch. Mae adroddiadau'r arholwyr allanol a'r gwirwyr safonau'n cyfrannu at y gwaith monitro yma ac yn cadarnhau'n gyffredinol bod y safonau'n cael eu cadw. Er enghraifft, mae adroddiadau'r arholwyr allanol a'r gwirwyr safonau ar gyfer y cwrs HNC mewn Peirianeg Fecanyddol a Thrydanol, ac ar gyfer y rhaglen Gradd Sylfaen mewn Peirianeg Drydanol, yn cadarnhau bod y Coleg yn gweithredu'n unol â gofynion safonau Pearson a'r corff dyfarnu.

1.11 Mae'r cyrff dyfarnu'n gwneud dyletswyddau goruchwyllo ychwanegol drwy, er enghraifft, yr adroddiad trosolwg partner gan PCYDDS.

1.12 O ystyried rôl ganolog y cyrff dyfarnu a Pearson mewn gosod safonau academiaidd, a'r ffaith fod y Coleg wedi glynu'n effeithiol at ofynion ei bartneriaid, daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni
Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (A2.1): Er mwyn sicrhau eu safonau academiaidd, mae cyrff dyfarnu graddau'n sefydlu fframweithiau a rheoliadau academiaidd sy'n eglur a chynhwysfawr i lywio sut y maent yn dyfarnu credyd neu gymhwyster academiaidd.

Cod Ansawdd, Pennod A2: Pwyntiau Cyfeirio'r Cyrff Dyfarnu Graddau ar gyfer Safonau Academiaidd

Y canfyddiadau

1.13 Mae cytundebau'r Coleg gyda'i gyrff dyfarnu'n cadarnhau bod y corff dyfarnu perthnasol yn gyfrifol am y fframweithiau a'r rheoliadau ar gyfer dyfarnu cymwysterau a chredydau academiaidd, a bod gofyn i'r Coleg weithredu'n unol â'r fframweithiau a'r rheoliadau hyn. Mae'r Coleg hefyd yn cydnabod ei gyfrifoldebau tuag at Pearson yn y cyswllt hwn. Mae'r rhain wedi'u nodi yn y cytundeb gyda Pearson am safonau a'u mynegi yn y rhestr wirio berthnasol o gyfrifoldebau. Mae gan yr uwch reolwyr a'r staff addysgu ddealltwriaeth eglur o'u cyfrifoldebau.

1.14 O ystyried yr eglurhad clir o'r cyfrifoldebau sydd gan y Coleg am gynnal safonau academiaidd, i ba raddau y mae staff uwch y Coleg yn deall y fframweithiau a'r rheoliadau academiaidd y mae gofyn iddynt weithio oddi mewn iddynt, a dealltwriaeth y staff uwch yn y Coleg o'r cyfrifoldebau hyn, byddai'r trefniadau sydd ar waith yn caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni.

1.15 Profodd y tîm adolygu'r Disgwyliad hwn drwy adolygu dogfen hunanwerthuso'r Coleg, a thrwy ystyried y cytundebau a'r memoranda cydweithrediad sydd gan y Coleg gyda'i gyrff dyfarnu, yn erbyn y rhestrau gwirio o gyfrifoldebau i bob partner. Yn yr un modd, roedd y tîm yn ystyried y cytundeb sydd gan y Coleg gyda Pearson yn erbyn y rhestr wirio berthnasol o gyfrifoldebau. Cyfarfu'r tîm hefyd â staff uwch a staff addysgu'r Coleg, a gyda thiwtoriaid cyswllt o ddau gorff dyfarnu.

1.16 Mae'r Coleg yn gweithio'n agos gyda'i bartneriaid dyfarnu i sicrhau ei fod yn gweithredu'n unol â'u fframweithiau a'u rheoliadau ar gyfer llywodraethu academiaidd. Mae'n cael ei gefnogi yn y rôl yma gan ei gysylltiadau agos â'i gyrff dyfarnu ar lefel strategol a lefel gysiol.

1.17 Ar gyfer ei raglenni Cenedlaethol Uwch, mae gan y Coleg berthynas effeithiol hirsefydlog gyda Pearson, ac mae'r staff y mae'r Coleg yn eu henwebu mewn sefyllfa dda i gefnogi timau addysgu i sicrhau eu bod yn gweithredu'n unol â fframweithiau a rheoliadau Pearson.

1.18 Ar gyfer ei ddarpariaeth ar etholfraint a'i ddarpariaeth a ddilysir, mae'r Coleg, mewn partneriaeth â'i gyrff dyfarnu, yn sicrhau bod y broses o ddyfarnu credydau a chymwysterau'n alinio â disgwyliadau *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru a'r Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon* (FHEQ). Ar gyfer Pearson, mae'r Coleg yn datblygu rhaglenni yn unol â manylebau rhaglenni ar sail fframwaith unedau Pearson. Mae'r staff uwch yn cydnabod rôl y fframweithiau hyn yn y broses o sefydlu'r sail ar gyfer dyfarnu credydau ond mae'r staff addysgu'n llai ymwybodol o'u rôl.

1.19 Mae rhaglenni'n cael eu cymeradwyo ar y sail y ffaith eu bod yn alinio â'r fframweithiau hyn, ac mae'r Coleg a'i gyrff dyfarnu'n monitro ac yn adolygu'r rhaglenni yn erbyn y fframweithiau hyn. Mae prosesau effeithiol yn eu lle i ganiatáu i hyn ddigwydd, gyda chefnogaeth werthfawr gan diwtoriaid cyswllt y cyrff dyfarnu.

1.20 O ystyried rôl ganolog y cyrff dyfarnu a Pearson mewn sefydlu fframweithiau a rheoliadau ar gyfer dyfarnu cymwysterau a chredydau academiaidd, a'r ffaith fod y Coleg yn

glynu'n effeithiol at y fframweithiau a'r rheoliadau hyn, daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni

Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (A2.2): Mae cyrff dyfarnu graddau'n cadw cofnod diffiniol o bob rhaglen a chymhwyster y maent yn eu cymeradwyo (a newidiadau dilynol iddynt) sy'n gweithredu fel pwynt cyfeirio ar gyfer darparu ac asesu'r rhaglen, ei monitro a'i hadolygu, ac ar gyfer darparu cofnodion astudio i fyfyrwyr a chyn-fyfyrwyr.

Cod Ansawdd, Pennod A2: Pwyntiau Cyfeirio'r Cyrff Dyfarnu Graddau ar gyfer Safonau Academiaidd

Y canfyddiadau

1.21 Mae gan Brifysgol De Cymru, PCYDDS, Prifysgol Abertawe a Pearson fframweithiau a rheoliadau academiaidd sy'n amlinellu'r cyfrifoldebau am safonau, ansawdd a gwelliant. Mae'r prifysgolion a Pearson yn cymryd yr awenau ar y gwaith o osod safonau a'r Coleg sy'n arwain ar gynnal safonau. O ran cadw cofnod diffiniol o'r prosesau o gymeradwyo, monitro ac adolygu rhaglenni, y prifysgolion sy'n gyfrifol am wneud hynny ar gyfer eu dyfarniadau hwy a'r Coleg sy'n gyfrifol am wneud hynny ar gyfer darpariaeth Pearson.

1.22 Ar gyfer darpariaeth y Coleg sydd ar etholfraint, y corff dyfarnu perthnasol sy'n cynnal a chadw cofnodion y rhaglenni ar lefel y rhaglen. Cedwir copïau o gofnodion y rhaglenni mewn ystorfa electronig ganolog o fewn y Coleg, ac mae'r Rheolwr Addysg Uwch yn gyfrifol am hon. Mae Rheolwr Ansawdd y Coleg yn goruchwyllo llawlyfrau ar gyfer rhaglenni Pearson, ac mae arweinwyr rhaglenni'r cyrff dyfarnu'n goruchwyllo llawlyfrau eu rhaglenni perthnasol. Mae templedi ar gael a ddyfeisiwyd gan y Coleg neu gan y prifysgolion ar gyfer creu llawlyfrau rhaglen, sy'n sicrhau bod y cynnwys yn gynhwysfawr ac yn gyflawn, ond mae'r wybodaeth yn amrywio yn ôl y corff dyfarnu.

1.23 Byddai prosesau'r Coleg yn caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni.

1.24 Profodd y tîm adolygu'r Disgwyliad drwy ystyried dogfennau a gynhyrchwyd gan y Coleg, yn cynnwys amrywiaeth o restrau gwirio o gyfrifoldebau; fframweithiau a ddarparwyd gan y cyrff dyfarnu a Pearson; llawlyfrau rhaglenni a thempledi sy'n sicrhau bod y rhain yn gyson ar draws y cyrsiau i gyd. Cyfarfu'r tîm hefyd â chynrychiolwyr y cyrff dyfarnu, a staff uwch a staff academiaidd y Coleg.

1.25 Yn ddiweddar, mae'r Coleg wedi datblygu ystorfa electronig ganolog i storio'r cofnodion astudio diffiniol. Mae'r Rheolwr Addysg Uwch yn goruchwyllo'r system hon, a gall yr adrannau perthnasol ddefnyddio'r system. Mae'r Rheolwr Addysg Uwch yn cofnodi unrhyw addasiadau a wneir i'r wybodaeth hon mewn Cofnod Addasiadau a ddatblygwyd yn ddiweddar.

1.26 Mae manylebau'r rhaglenni'n rhoi cofnod diffiniol o ddarpariaeth y Coleg, ac mae'r Coleg wedi dyfeisio proses newydd ar gyfer cofnodi addasiadau. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni

Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (A3.1): Mae cyrff dyfarnu graddau'n sefydlu prosesau, a'u gweithredu'n gyson, ar gyfer cymeradwyo rhaglenni a addysgir a graddau ymchwil sy'n sicrhau bod safonau academaidd yn cael eu gosod ar lefel sy'n cwrdd â safon trothwy'r DU ar gyfer y cymhwyster a'u bod yn cyfateb â'u fframweithiau a rheoliadau academaidd eu hunain.

Cod Ansawdd, Pennod A3: Sicrhau Safonau Academaidd ac Agwedd tuag at Ddyfarniadau Academaidd sy'n seiliedig ar Ganlyniadau

Y canfyddiadau

1.27 Nid oes gan y Coleg bwerau dyfarnu graddau, ac felly mae'r broses o gymeradwyo rhaglenni'n dilyn y gweithdrefnau a ddiffinnir gan reoliadau'r cyrff dyfarnu a Pearson.

1.28 Mae'r cyrff dyfarnu'n gyfrifol am sicrhau bod strwythur a chynnwys y rhaglenni a'r safonau academaidd trothwy cysylltiedig yn alinio â fframweithiau cenedlaethol. Maent hefyd yn penodi arbenigwyr pwnc allanol, a staff academaidd o'u sefydliadau eu hunain, sydd â'r cymwysterau priodol i graffu ar y safonau wrth ddilysu, ac i gadarnhau a yw'r rhaglenni'n alinio â'u fframweithiau a'u rheoliadau eu hunain.

1.29 Mae Pearson yn gyfrifol am gynllunio a chymeradwyo ei gymwysterau Cenedlaethol Uwch ei hun a chael cydnabyddiaeth iddynt gan Ofqual. Ar gyfer y dyfarniadau hyn, mae'r Coleg yn dilyn y manylebau rhaglenni a gymeradwyir gan Pearson, sy'n diffinio'r lefel academaidd, y canlyniadau dysgu a'r safonau academaidd trothwy sy'n ofynnol ar gyfer bob uned.

1.30 Byddai'r gweithdrefnau hyn yn caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni.

1.31 Archwiliodd y tîm adolygu amrywiaeth o ddogfennaeth ddilysu, yn cynnwys manylebau rhaglenni a disgrifiadau modiwlau, ac adroddiadau gan aseswyr mewnol ac allanol, a gan banelau dilysu. Bu hefyd yn dilyn trywyddau archwilio i olrhain y broses gymeradwyo ar gyfer nifer o'r rhaglenni Cenedlaethol Uwch a gradd sylfaen. Trafodwyd y broses ddilysu hefyd gyda staff uwch a staff addysgu'r Coleg a gyda swyddogion cyswllt o'r cyrff dyfarnu.

1.32 Mae'r tîmau cwricwlwm yn datblygu cynigion am raglenni newydd a chânt eu hystyried i ddechrau gan Grŵp Cwricwlwm Addysg Uwch a Rheoli Ansawdd y Coleg. Yna rhaid iddynt gael eu cymeradwyo gan Grŵp Cynllunio Strategol y Coleg cyn y gallent symud ymlaen i'r cam dilysu gan ddilyn y broses briodol. Mae'r broses gymeradwyo fewnol yn galluogi'r Coleg i asesu a yw'r rhaglen a gynigir yn cyfateb yn addas gyda'i flaenoriaethau strategol ac a yw'n gallu ei darparu hi. Ond, nid yw'r broses yn gofyn am fanylion aliniad y rhaglen a gynigir gyda'r *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru*, y FHEQ, y Cod Ansawdd neu Ddatganiadau Meincnodi Pwnc, ac nid yw'n gofyn am unrhyw fanylion am y cwricwlwm, er enghraifft y modiwlau sydd i gael eu haddysgu ar bob lefel a'u gwerth credyd. Nid yw chwaith wedi'i weithredu'n gyson i bob rhaglen. Archwilir y pwyntiau hyn ymhellach mewn perthynas â Disgwyliad B1.

1.33 Mae'r tîm adolygu'n cydnabod bod rhaglenni'r Coleg ar hyn o bryd naill ai ar etholfraint neu'n dilyn y fanyleb a roddwyd gan Pearson, ac mai gan y cyrff dyfarnu a Pearson y mae'r prif gyfrifoldeb am gymeradwyo rhaglenni. Er mwyn gwerthuso unrhyw gynnig newydd yn llawn, mae'r tîm adolygu'n **argymhell** bod y Coleg yn ystyried aliniad y cynnig yn eglur â fframweithiau cenedlaethol ar gyfer cymwysterau rhaglen fel rhan o'i weithdrefnau mewnol ar gyfer cymeradwyo rhaglenni.

1.34 Ar gyfer rhaglenni a gymeradwyir gan y cyrff dyfarnu, gosodir y safonau academaidd wrth ddilysu. Mae'r panelau cymeradwyo'n cadarnhau bod y rhaglenni wedi'u halinio â'r FHEQ, *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru* a'r Datganiadau Meincnodi Pwnc priodol.

Gan gyrff dyfarnu'r Coleg y mae'r prif gyfrifoldeb am gysylltu â chyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio. Er enghraifft, mae'r rhaglen TBAR wedi'i chynllunio i ddilyn y safonau proffesiynol Dysgu Gydol Oes yn y DU. Ar gyfer y rhaglenni a gymeradwyir gan Pearson, mae'r fanyleb yn rhagnodi strwythur y rhaglen yn nhermau nifer yr unedau ar bob lefel ac unrhyw rai sy'n orfodol, er bod modd i'r Coleg ddewis rhai unedau dewisol o blith y rhai sydd ar gael.

1.35 Er gwaethaf yr argymhelliad a wnaed yn ymwneud â threfnau cymeradwyo mewnol y Coleg, mae prosesau'r cyrff dyfarnu a Pearson ar gyfer cymeradwyo rhaglenni a addysgir yn sicrhau bod y safonau academaidd yn cael eu gosod ar lefel sy'n cwrdd â'r safonau trothwy ar gyfer y cymhwyster, a'u bod yn cyfateb â fframweithiau a rheoliadau'r cyrff dyfarnu a Pearson. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni

Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (A3.2): Mae cyrff dyfarnu graddau'n sicrhau bod credydau a chymwysterau'n cael eu dyfarnu dim ond pan fo:

- **asesiad yn dangos cyflawni'r canlyniadau dysgu perthnasol (canlyniadau dysgu'r modiwl ar gyfer credydau, a chanlyniadau dysgu'r rhaglen ar gyfer cymwysterau)**
- **safonau trothwy'r DU a'u safonau academiaidd eu hunain wedi'u bodloni.**

Cod Ansawdd, Pennod A3: Sicrhau Safonau Academiaidd ac Agwedd tuag at Ddyfarniadau Academiaidd sy'n seiliedig ar Ganlyniadau

Y canfyddiadau

1.36 Mae gan y cyrff dyfarnu a Pearson y cyfrifoldeb trosfwaol am sicrhau bod credydau a chymwysterau'n cael eu dyfarnu dim ond lle mae safonau trothwy'r DU a'u safonau academiaidd eu hunain wedi'u bodloni. Diffinnir canlyniadau dysgu'r rhaglenni a'r modiwlau ym manylebau'r rhaglenni, a chytunir ar strategaethau asesu wrth gymeradwyo'r rhaglen. Mae'r prosesau ar gyfer cymeradwyo asesiadau drafft ac ar gyfer safoni gwaith myfyrwyr wedi'i farcio'n cynnwys craffu gan arbenigwyr pwnc allanol annibynnol sydd â'r cymwysterau priodol, y mae gofyn iddynt roi sylwadau ar y safonau a osodwyd a'r rheiny a gyflawnwyd gan y myfyrwyr. Mae'r rheoliadau ar gyfer cynnydd a dyfarnu cymwysterau wedi'u diffinio gan y cyrff dyfarnu a Pearson, yn unol â'u fframweithiau academiaidd eu hunain.

1.37 Byddai'r polisïau a'r gweithdrefnau hyn yn caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni.

1.38 Edrychodd y tîm adolygu ar ddogfennaeth ddilysu, llawlyfrau myfyrwyr, briffiau aseiniad, a pholisïau a rheoliadau'r Coleg, y cyrff dyfarnu a Pearson. Trafodwyd prosesau asesu hefyd mewn cyfarfodydd gyda staff uwch, staff addysgu a staff gweinyddol y Coleg, a gyda staff academiaidd y cyrff dyfarnu.

1.39 Mae'r prosesau ar gyfer gosod asesiadau'n amrywio yn ôl y rhaglen a'r corff dyfarnu. Ond, mae aelod perthnasol o staff y corff dyfarnu'n craffu ar yr holl dasgau asesu drafft a meini prawf graddio ac mae'n rhaid i'r arholwr allanol eu cymeradwyo cyn iddynt gael eu gweinyddu. Mae systemau yn eu lle i sicrhau bod yr arferion asesu ar draws y rhaglenni'n gyfartal pan ddarperir modiwl gan y Coleg a'r corff dyfarnu, neu pan fydd wedi'i roi ar etholfraint gan y corff dyfarnu i ddau neu fwy o sefydliadau darparu.

1.40 Ar gyfer rhaglenni a gymeradwyr gan Pearson, mae'r asesiadau'n cael eu gwirio'n fewnol a'u gwirio eto gan y gwiriwr safonau yn rhan o'r broses fonitro flynyddol.

1.41 Mae'r briffiau aseiniad yn glir ac yn nodi'r canlyniadau dysgu sy'n cael eu profi a'r meini prawf sy'n gysylltiedig â gwahanol lefelau o berfformiad y myfyrwyr. Mae staff y Coleg yn gyfrifol am farcio gwaith y myfyrwyr am y tro cyntaf. Mae'r cyfrifoldeb am ail farcio'n disgyn ar naill ai'r Coleg neu'n cael ei rannu gyda'r corff dyfarnu. Pan fydd y corff dyfarnu'n rhoi rhaglen ar etholfraint gyda sefydliadau darparu eraill, mae gweithgareddau traws-safoni, ynghyd â defnyddio yr un arholwr allanol i'r holl raglenni, yn sicrhau cydraddoldeb y safonau ac yn hwyluso rhannu arferion gorau rhwng staff y Coleg a staff y sefydliadau darparu eraill.

1.42 Safonir gwaith myfyrwyr sydd wedi'i farcio ymhob rhaglen, naill ai gan yr arholwyr allanol (ar gyfer y rhaglenni a gymeradwyr gan y cyrff dyfarnu) neu'r gwiriwr safonau (ar gyfer y rhaglenni a gymeradwyr gan Pearson). Mae eu hadroddiadau'n cadarnhau bod y dulliau asesu'n briodol a bod y meini prawf graddio a ddefnyddir o safon sy'n briodol i lefel y cymhwyster. Maent yn cadarnhau hefyd bod byrddau arholi ac asesu'n cael eu gweithredu'n effeithiol ac yn effeithlon.

1.43 Mae prosesau asesu'r Coleg yn sicrhau bod tasgau asesu a meini prawf graddio'n cael eu gosod ar lefel briodol, a bod credyd, ac felly gymwysterau, yn cael eu dyfarnu dim ond lle mae asesiad yn dangos bod y canlyniadau dysgu wedi cael eu cyflawni. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni

Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (A3.3): Mae cyrff dyfarnu graddau'n sicrhau bod prosesau ar gyfer monitro ac adolygu rhaglenni wedi'u gweithredu sy'n ymroi'n amlwg i ganfod a yw safonau academiaidd trothwy'r DU wedi'u cyflawni ac a yw'r safonau academiaidd sy'n ofynnol gan y corff dyfarnu graddau unigol yn cael eu cadw.

Cod Ansawdd, Pennod A3: Sicrhau Safonau Academiaidd ac Agwedd tuag at Ddyfarniadau Academiaidd sy'n seiliedig ar Ganlyniadau

Y canfyddiadau

1.44 Mae darpariaeth addysg uwch y Coleg yn atebol i brosesau monitro blynyddol ac adolygu cyfnodol ei gyrff dyfarnu a Pearson. Mae'r safonau academiaidd yn cael eu monitro'n flynyddol gan arholwyr allanol a gwirwyr safonau sydd â'r cymwysterau priodol, a benodir gan y cyrff dyfarnu a Pearson yn y drefn honno. Cefnogir y prosesau hyn gan dimau cwricwlwm ac arweinwyr cwricwlwm yn y Coleg, sy'n gyfrifol am gwblhau adroddiadau monitro blynyddol. Mae'r Coleg yn goruchwyllo ei ddyfarniadau'n effeithiol drwy'r Grŵp Cwricwlwm Addysg Uwch a Rheoli Ansawdd, sy'n derbyn yr holl adroddiadau gan arholwyr allanol a gwirwyr safonau, a'r holl adroddiadau monitro blynyddol. Mae'n adrodd i Dîm Rheoli a Grŵp Cynllunio Strategol y Coleg.

1.45 Byddai'r prosesau hyn yn caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni.

1.46 Profodd y tîm adolygu'r Disgwyliad drwy graffu ar adroddiadau monitro blynyddol ac adroddiadau'r arholwyr allanol, a chofnodion pwyllgorau perthnasol y Coleg. Bu'r tîm adolygu hefyd yn trafod y broses fonitro ac adolygu gyda myfyrwyr, staff uwch a staff addysgu'r Coleg, a gydag aelodau o staff y cyrff dyfarnu sydd â rôl swyddog cyswllt.

1.47 Ar gyfer y rhaglenni a gymeradwyir gan gyrff dyfarnu'r Coleg, mae adroddiadau'r arholwyr allanol yn cadarnhau bod y dulliau asesu a'r safonau a osodwyd yn briodol, a bod perfformiad y myfyrwyr yn gymaradwy â safonau rhaglenni tebyg yn sefydliadau addysg uwch eraill y DU y maent yn gyfarwydd â nhw. Ar gyfer y rhaglenni a gymeradwyir gan Pearson, mae adroddiadau'r gwirwyr safonau'n cadarnhau bod cynllun a natur yr asesiadau'n caniatáu i nodau ac amcanion dysgu'r rhaglenni gael eu cyflawni ac maent o safon sy'n briodol i lefel y cymhwyster. Cofnodir data am gadwraeth, cynnydd a chyflawniad y myfyrwyr yn rhan o'r broses fonitro flynyddol, gan felly alluogi'r Coleg i fonitro'r dangosyddion perfformiad allweddol hyn. Mae'r prosesau monitro blynyddol yn gofyn bod unrhyw broblemau a ganfuwyd gan arholwyr allanol yn derbyn sylw gan y timau cwricwlwm ar ffurf cynllun gweithredu.

1.48 Mae'r Coleg yn goruchwyllo'r safonau academiaidd a chyflawniad y myfyrwyr yn effeithiol yn ei bortffolio o raglenni addysg uwch drwy'r Grŵp Cwricwlwm Addysg Uwch a Rheoli Ansawdd, sy'n derbyn yr holl adroddiadau gan arholwyr allanol a gwirwyr safonau, a'r holl adroddiadau monitro blynyddol, a thrwy Dîm Rheoli'r Coleg, sy'n derbyn data am gadwraeth, cynnydd a dyfarniadau'r myfyrwyr. Mae'r prosesau hyn yn sicrhau bod y Coleg yn gallu monitro safonau ei raglenni academiaidd yn effeithiol, a phennu ac ymdrin ag unrhyw drawstorri ac unrhyw broblemau eraill a allai godi.

1.49 Mae'r cyrff dyfarnu'n gyfrifol am adolygu'r rhaglenni'n gyfnodol y maent yn eu cymeradwyo yn y Coleg, gan ddilyn eu gweithdrefnau a'u rheoliadau eu hunain. Ar amser yr adolygiad, dim ond y rhaglen TBAR oedd wedi bod yn gweithredu'n ddigon hir iddo dderbyn adolygiad cyfnodol, a gadarnhaodd bod ei safonau'n alinio gyda'r fframweithiau cenedlaethol perthnasol a disgwyliadau cyrff proffesiynol.

1.50 Mae'r prosesau ar gyfer monitro ac adolygu'r rhaglenni'n gadarn ac maent yn caniatáu i'r Coleg a'i gyrff dyfarnu fonitro cyflawniad a chynhaliueth y safonau academiaidd.

Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni

Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (A3.4): Er mwyn bod yn eglur ac yn atebol i'r cyhoedd, mae cyrff dyfarnu graddau'n defnyddio arbenigedd allanol ac annibynnol ar gamau allweddol o osod a chynnal safonau academiaidd i gynghori a yw:

- **safonau academiaidd trothwy'r DU wedi'u gosod, eu darparu a'u cyflawni**
- **safonau academiaidd y corff dyfarnu graddau wedi'u gosod a'u cynnal yn briodol.**

Cod Ansawdd, Pennod A3: Sicrhau Safonau Academiaidd ac Agwedd tuag at Ddyfarniadau Academiaidd sy'n seiliedig ar Ganlyniadau

Y canfyddiadau

1.51 Mae'r Coleg yn cael ei ddylanwadu yn ei strategaeth ar gyfer ei ddarpariaeth addysg uwch gan ei waith gyda phartneriaid cenedlaethol a rhanbarthol, sy'n helpu i bennu natur a chwmpas y rhaglenni addysg uwch.

1.52 Mae Strategaeth Addysg Uwch 2016-19 drafft y Coleg yn dangos sut mae'n ymateb i'r galw am sgiliau yn yr ardal ac yng Nghymru gyfan a'i nod o ddatblygu cwricwlwm gyda phwyslais ar alwedigaeth a chyflogaeth. Mae'r Strategaeth yn datgan y bydd y broses o ddatblygu rhaglenni newydd yn cael ei hysbysu gan 'Gyfeiriadau'r Dyfodol ar gyfer Addysg Uwch yng Nghymru', gyda ffocws ar gwrdd â'r galw gan y diwydiant lleol. Mae gwaith y Coleg gyda TATA Steel i ddatblygu cwrs HNC pwrpasol yn y Gwyddorau Cemegol yn dangos yr arfer hwn.

1.53 Ar lefel y rhaglenni, mae defnyddio arbenigedd annibynnol allanol i gynnal safonau yn rhan o'r broses o gymeradwyo rhaglenni a ddefnyddir yn y prosesau cymeradwyo allanol ffurfiol a'r rhai mewnol y mae'r Coleg yn atebol iddynt gyda'i gyrff dyfarnu.

1.54 Mae'r arholwyr allanol a'r gwirwyr safonau hefyd yn cyfrannu arbenigedd allanol annibynnol gwerthfawr i'r broses o gyflawni a chynnal safonau trothwy.

1.55 Mae'r dull strategol sy'n wynebu'n allanol y mae'r Coleg yn ei ddefnyddio wrth osod ei strategaeth gyffredinol, ac ar gyfer ei raglenni addysg uwch, yn cymryd i ystyriaeth flaenoriaethau ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. Mae'r prosesau mewnol a phrosesau'r cyrff dyfarnu ar gyfer cymeradwyo rhaglenni'n gofyn am ddefnyddio arbenigedd allanol ac annibynnol ar gamau allweddol o osod a chynnal safonau academiaidd. Byddai rôl yr arholwyr allanol a'r gwirwyr safonau, a'r ffordd y mae prosesau'r Coleg wedi'u llunio i ymateb i'r cyfraniadau allanol yma, yn caniatáu i'r Disgwyliad hwn gael ei gyflawni.

1.56 Profodd y tîm adolygu'r broses drwy gwrdd â Phennaeth y Coleg a staff uwch. Hefyd, ystyriwyd dogfen hunanwerthuso, Cynllun Strategol a Strategaeth Addysg Uwch 2016-19 y Coleg, ochr yn ochr ag adroddiadau gan arholwyr allanol a gwirwyr safonau. Adolygodd y tîm hefyd amrywiaeth o adroddiadau monitro cyrsiau.

1.57 Mae proses fewnol y Coleg ar gyfer cymeradwyo rhaglenni'n amrywio mewn perthynas â'r cynigion yn dibynnu a yw'r corff dyfarnu neu'r sefydliad dyfarnu'n newydd neu'n gyfredol. Ymhob achos, fodd bynnag, mae'n rhaid i'r cynigion cychwynnol, a sail resymegol ar gyfer cael caniatâd i geisio cymeradwyaeth, gynnwys ystyriaeth o 'gyfatebiaeth strategol' gyda Strategaeth Addysg Uwch gyffredinol y Coleg. Mae'n rhaid i'r staff sy'n cymryd rhan yn y cynnig cychwynnol ddangos tystiolaeth o'r ffordd y maent wedi ymgysylltu ag arbenigedd allanol (er enghraifft, cyflogwyr) wrth gefnogi'r achos ar gyfer y rhaglen newydd.

1.58 Mae cynigion llwyddiannus yn symud ymlaen at brosesau cymeradwyo'r cyrff dyfarnu a'r sefydliad dyfarnu, sydd unwaith eto'n gofyn am dystiolaeth o arbenigedd annibynnol i gefnogi

sail resymegol y cynnig. Mae hyn yn gweithio'n dda cyn belled ag y bo'r cynigion yn gallu cyflwyno sail resymegol gref ar gyfer datblygu rhaglenni newydd. Mae gan staff y Coleg gysylltiadau da gyda chyflogwyr. Ond, yn nhermau datblygiad y cwricwlwm wedyn, ni welodd y tîm adolygu unrhyw dystiolaeth i ddangos bod y Coleg yn defnyddio arbenigedd allanol annibynnol yn gyson ac yn systematig i hysbysu cynnwys y cwricwlwm a'r strategaethau asesu.

1.59 Mae'r broses o fonitro ac adolygu'r rhaglenni cyfredol wedi'u hysbysu i ryw raddau gan gyflogwyr a chyrff sector perthnasol, a thrwy adroddiadau gan arholwyr allanol a gwirwyr safonau. Mae'r arholwyr allanol a'r gwirwyr safonau'n derbyn samplau o'r gwaith wedi'i farcio ac yn rhoi sylwadau arnynt, ac maent yn mynd i gyfarfodydd byrddau asesu lle cadarnheir graddau'r myfyrwyr ac yr ystyrir safonau academiaidd. Mae'r Coleg yn effeithiol o ran y ffordd y mae'n rheoli adroddiadau gan yr arholwyr allanol a'r gwirwyr safonau, ac yn ymateb iddynt. Mae'n gallu casglu themâu cyffredin yn ymwneud ag arferion da neu feysydd sydd angen eu datblygu drwy ystyried yr adroddiadau i gyd yng nghyfarfodydd y Grŵp Gweithrediadau Addysg Uwch a'r Grŵp Cwricwlwm Addysg Uwch a Rheoli Ansawdd.

1.60 Mae'r Coleg yn ymgysylltu ag arbenigedd allanol annibynnol mewn nifer o ffyrdd ar lefelau strategol a gweithredol. Er bod llai o dystiolaeth i ddangos bod y Coleg yn defnyddio arbenigedd allanol annibynnol yn gyson ac yn systematig i hysbysu'r broses o ddatblygu rhaglenni a strategaethau asesu, daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni

Lefel y risg: Isel

Y modd y cynhelir safonau academiaidd y dyfarniadau a gynigir ar ran cyrff dyfarnu graddau a/neu sefydliadau dyfarnu eraill: Crynodeb o'r canfyddiadau

- 1.61 Wrth benderfynu ar ei feirniadaeth am y safonau academiaidd, cyfatebodd y tîm adolygu ei ganfyddiadau â'r meini prawf a nodir yn Atodiad 2 y llawlyfr cyhoeddedig.
- 1.62 Mae pob un o'r saith Disgwyliad yn y maes beirniadaeth yma'n rhai risg isel.
- 1.63 Mae trefniadau'r Coleg gyda'i gyrff dyfarnu a'i sefydliad dyfarnu'n sicrhau bod cymwysterau wedi'u gosod ar y lefel briodol yn y FHEQ, er bod argymhelliad wedi'i wneud sy'n dweud y dylai prosesau mewnol y Coleg ar gyfer cymeradwyo rhaglenni roi ystyriaeth benodol i alinio gyda fframweithiau cymwysterau cenedlaethol.
- 1.64 Mae'r canlyniadau dysgu'n alinio â'r disgrifwyr cymhwyster ac maent yn ystyried Datganiadau Meincnodi Pwnc. Mae fframweithiau a rheoliadau yn eu lle sy'n briodol ac eglur a glynir at y rhain yn ymarferol. Cedwir cofnodion diffiniol o'r rhaglenni yn dilyn cymeradwyaeth a chytunir ar unrhyw newidiadau dilynol yn unol â'r prosesau priodol.
- 1.65 Mae prosesau cynllunio a chymeradwyo ar waith sy'n cynnwys y Coleg, y cyrff dyfarnu a Pearson, er bod yr argymhelliad yn ymwneud â chymeradwyo rhaglenni, a wnaed mewn perthynas â Disgwyliad B1, yn berthnasol hefyd i Ddisgwyliad A3.1.
- 1.66 Nid yw'r myfyrwyr ond yn derbyn credyd pan maent yn cyflawni'r canlyniadau dysgu, ac y mae hynny wedi'i ardystio gan safonwyr ac arholwyr allanol. Mae arbenigedd allanol ac annibynnol yn cael ei ddefnyddio ar gamau allweddol i sicrhau bod safonau academiaidd yn cael eu gosod a'u cynnal yn briodol.
- 1.67 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y modd y cynhelir safonau academiaidd y dyfarniadau a gynigir yn y Coleg ar ran ei gyrff dyfarnu graddau a'i sefydliad dyfarnu arall yn **cyflawni** disgwyliadau'r DU.

2 Y Feirniadaeth am: Ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr

Disgwyliad (B1): Mae darparwyr addysg uwch, wrth gyflawni eu cyfrifoldebau am osod a chynnal safonau academiaidd ac am sicrhau a gwella ansawdd y cyfleoedd dysgu, yn gweithredu prosesau effeithiol ar gyfer cynllunio, datblygu a chymeradwyo rhaglenni.

Cod Ansawdd, Pennod B1: Cynllunio, Datblygu a Chymeradwyo Rhaglenni

Y canfyddiadau

2.1 Yn ddiweddar, mae'r Coleg wedi ehangu ei bortffolio o raglenni addysg uwch, gyda phum rhaglen lawn amser newydd yn cychwyn yn y flwyddyn academiaidd 2014-15 a phedair arall yn cychwyn yn 2015-16.

2.2 Mae cynigion am raglenni newydd yn cael eu datblygu'n fewnol a rhaid iddynt gael eu hystyried yn gyntaf gan Grŵp Cwricwlwm Addysg Uwch a Rheoli Ansawdd y Coleg ac yna eu cymeradwyo gan y Grŵp Cynllunio Strategol cyn symud ymlaen i'r cam dilyn. Datblygir rhaglenni newydd mewn ymateb i anghenion rhanbarthol a chenedlaethol ond rhoddir pwyslais ar y rheiny sy'n alwedigaethol ac sy'n darparu opsiynau i symud ymlaen o'r rhaglenni lefel 3 niferus yn y Coleg. Nid oes gan y Coleg bwerau dyfarnu graddau, ac felly mae'r broses o gymeradwyo rhaglenni'n dilyn y gweithdrefnau a ddiffinnir gan y cyrff dyfarnu a Pearson. Ar hyn o bryd, mae'r Coleg yn darparu rhaglenni a gymeradwyir gan dri chorff dyfarnu ond mae'n archwilio'r posibilrwydd o sefydlu rhaglenni gydag eraill.

2.3 Byddai'r gweithdrefnau hyn yn caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni.

2.4 Archwiliodd y tîm adolygu amrywiaeth o ddogfennaeth ddilysu, yn cynnwys manylebau rhaglenni a disgrifiadau modiwlau, ac adroddiadau gan aseswyr mewnol ac allanol, a gan banelau dilysu. Bu hefyd yn dilyn trywyddau archwilio i olrhain y broses o gymeradwyo rhaglenni Cenedlaethol Uwch a gradd sylfaen. Trafodwyd y prosesau cymeradwyo rhaglenni gyda staff uwch a staff addysgu'r Coleg, a gyda swyddogion cyswllt o'r cyrff dyfarnu.

2.5 Mae proses gymeradwyo fewnol y Coleg yn galluogi'r Coleg i asesu sut mae'r rhaglen a gynigir yn cyd-fynd â blaenoriaethau strategol y Coleg, y farchnad bosibl a gallu'r Coleg i ddarparu'r rhaglen. Mae'r Coleg wrthi'n datblygu ffyrdd o gynnwys barn y myfyrwyr yn gyson ac yn fwy ffurfiol yn y broses o gymeradwyo rhaglenni. Defnyddir grwpiau ffocws myfyrwyr erbyn hyn i hysbysu'r broses gynllunio gynnar, a chafodd myfyrwyr ar y cwrs HND mewn Rheolaeth Trin Gwallt a Harddwch gyfrannu at y rhaglen Gradd Sylfaen newydd mewn Rheolaeth Sba a Therapiau Uwch.

2.6 Mae staff y Coleg yn gweithio gyda staff y corff dyfarnu wrth ddatblygu rhaglenni a gallent ddylanwadu ar gynnwys y cwricwlwm, er enghraifft, ar gyfer y rhaglen Gradd Sylfaen mewn Datblygu a Rheoli Chwaraeon, drwy gynnwys modiwlau hyfforddi penodol. Gall cyflogwyr hefyd gyfrannu yn y broses o ddatblygu rhaglenni.

2.7 Mae'r prosesau dilysu'n dilyn rheoliadau'r corff dyfarnu perthnasol. Ymhob achos, mae'r panelau dilysu'n cynnwys arbenigwyr pwnc allanol annibynnol ac un aelod o'r staff academiaidd o ddisgyblaeth gytras o fewn y corff dyfarnu. Mae staff y Coleg hefyd yn cymryd rhan yn y broses ddilysu. Mae'r prosesau dilysu'n cadarnhau bod canlyniadau dysgu'r rhaglenni a'r modiwlau, cynnwys y cwricwlwm, a'r strategaethau addysgu, dysgu ac asesu'n briodol. Maent hefyd yn cadarnhau bod gan y Coleg adnoddau digonol i gefnogi'r rhaglen a'i myfyrwyr. Rhaid i bob aelod o'r staff sy'n addysgu ar y rhaglen gael ei gymeradwyo gan y corff dyfarnu.

Mae'r panelau cymeradwyo hefyd yn cadarnhau bod y rhaglenni wedi'u halinio â'r FHEQ, *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru*, a'r Datganiadau Meincnodi Pwnc priodol.

2.8 Unwaith y bydd rhaglen wedi derbyn cymeradwyaeth ffurfiol mae'r Rheolwr Maes Dysgu a'r arweinydd cwrwclwm yn trosi'r ddogfennaeth ddilysu'n llawlyfrau rhaglenni a disgrifiadau modiwlau. Mae cyfarfodydd gyda'r aelod perthnasol o'r staff addysgu'n sicrhau eu bod yn ymwybodol o ofynion y rhaglen a'r prosesau sicrhau ansawdd perthnasol sy'n ymwneud â hi. Darperir cefnogaeth barhaus hefyd gan y swyddogion cyswllt o'r cyrff dyfarnu. Pennir unrhyw newidiadau i'r rhaglenni drwy brosesau monitro blynyddol a'u trafod gyda'r corff dyfarnu perthnasol.

2.9 Dechreuodd y Coleg addysgu cwrs HNC yn y Gwyddorau Cemegol i fyd diwydiant ym mis Medi 2015. Datblygwyd y rhaglen ran amser ddwy flynedd yma mewn partneriaeth â TATA Steel er mwyn cwrdd ag anghenion hyfforddi penodol ei dechnegwyr labordy. Bryd hynny, nid oedd Grŵp Cwrwclwm Addysg Uwch a Rheoli Ansawdd y Coleg wedi ystyried y rhaglen. Cafodd y rhaglen ei hystyried i ddechrau gan y Grŵp Cynllunio Strategol ym mis Tachwedd 2015 ond cafodd ei chyfeirio yn ôl a dim ond ym mis Ionawr 2016 y cafodd ei chymeradwyo. Cyflwynwyd y rhaglen yn gyntaf i Pearson, y sefydliad dyfarnu, ym mis Hydref 2015. Ond, ni chafodd ei chymeradwyo'n llawn cyn i'r myfyrwyr gwblhau eu blwyddyn gyntaf o astudio. Hysbyswyd y tîm adolygu bod myfyrwyr wedi gwneud asesiadau fel y byddent fel arfer yn ystod y flwyddyn academiaidd ond nid oedd unrhyw raddau wedi cael eu cymeradwyo.

2.10 Mae'r tîm adolygu'n nodi bod gadael i'r rhaglen gychwyn heb i'r Grŵp Cwrwclwm Addysg Uwch a Rheoli Ansawdd roi ystyriaeth ffurfiol i'r cynnig neu heb gymeradwyaeth gan y Grŵp Cynllunio Strategol, yn golygu bod y Coleg yn mynd yn erbyn ei weithdrefnau ei hun a'r dulliau diogelu sydd wedi'u hamlinellu mewn perthynas â Disgwyliad A3.1. Yn ogystal, mae'r ffaith nad oedd y rhaglen wedi'i chymeradwyo'n llawn gan Pearson ar yr amser pan gychwynnodd y myfyrwyr eu hastudiaethau'n cynrychioli risg i'r myfyrwyr, y cwmni a'r Coleg. Mae'r tîm adolygu'n **argymhell** bod y Coleg yn sicrhau bod ei raglenni i gyd wedi derbyn cymeradwyaeth lawn cyn i'r myfyrwyr gychwyn eu hastudiaethau.

2.11 Daeth y tîm i'r casgliad bod y Disgwyliad heb ei gyflawni. Ond, mae'r tîm yn nodi bod y rhaglen yn dilyn manyleb Pearson a bod y Coleg yn 'ganolfan gymeradwy' ar gyfer dyfarnu ei gymwysterau. Felly, daeth y tîm i'r casgliad, mewn perthynas â rhaglenni Pearson, bod lefel y risg yn ganolog.

Y Disgwyliad: Heb ei gyflawni

Lefel y risg: Canolog

Disgwyliad (B2): Mae polisiâu a gweithdrefnau ar gyfer recriwtio, dethol a derbyn yn glynu at egwyddorion mynediad teg. Maent yn eglur, dibynadwy, dilys a chynhwysol ac maent wedi'u tanategu gan strwythurau a phrosesau sefydliadol priodol. Maent yn cefnogi darparwyr addysg uwch i dethol myfyrwyr sy'n gallu cwblhau eu rhaglenni.

Cod Ansawdd, Pennod B2: Recriwtio, Dethol a Mynediad i Addysg Uwch

Y canfyddiadau

2.12 Mae gan y Coleg Bolisi Derbyn cynhwysfawr sy'n glynu at egwyddorion mynediad teg. Mae'r Polisi'n ymwneud ag addysg uwch ac addysg bellach, mae'n berthnasol i fyfyrwyr llawn amser a rhan amser, ac mae ar gael i'r ymgeiswyr ar wefan y Coleg. Mae'r Polisi'n amlinellu'r broses ymgeisio, o wneud ymholiad a gwneud cais i'r cofrestru a'r derbyniad.

2.13 Mae'r Coleg yn ceisio recriwtio, dethol a derbyn myfyrwyr sy'n ateb y meini prawf mynediad priodol. Mae'r Coleg yn gosod y rhain ar gyfer darpariaeth Pearson ac mae'r cyrff dyfarnu'n eu gosod ar gyfer y ddarpariaeth addysg uwch sydd ar etholfraint. Mae ymgeiswyr sy'n gwneud cais i'r Coleg i astudio'n llawn amser yn ymgeisio drwy UCAS, ac mae'r ymgeiswyr sy'n gwneud cais i astudio'n rhan amser yn ymgeisio'n uniongyrchol i'r Coleg.

2.14 Mae'r Polisi Derbyn a'r prosesau cysylltiedig yn glir, yn fanwl yn eglur ac yn gynhwysol, a byddent yn caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni.

2.15 Wrth ystyried y Disgwyliad, archwiliodd y tîm adolygu ddogfennau allweddol sy'n ymwneud â recriwtio, dethol a derbyn, yn cynnwys Polisi Derbyn y Coleg, y llyfryn am ei gynnig addysg sy'n rhoi disgrifiad o'r broses dderbyn a chofrestru i'r ymgeiswyr, a'r polisi ffioedd. Archwiliwyd agweddau o'r broses dderbyn hefyd drwy drafodaethau gyda'r myfyrwyr a'r staff.

2.16 Mae Polisi Derbyn y Coleg yn cyfeirio ymgeiswyr at drefn apelio ar wahân ar gyfer myfyrwyr, sydd hefyd ar gael ar wefan y Coleg, os ydynt eisiau apelio yn erbyn penderfyniadau am dderbyniadau. Hefyd, mae'r Coleg wrthi'n cyflwyno codau cynnig generig a fyddai'n caniatáu iddo gyhoeddi'r meini prawf mynediad mewn deunyddiau marchnata a safoni'r meini prawf mynediad ar draws yr holl gyrsiau addysg uwch a gynigir gan y Coleg.

2.17 Gwneir y cyfweiliadau mynediad gan staff academiaidd sy'n darparu ar eu cyrsiau perthnasol. Nid yw'r staff sy'n cynnal cyfweiliadau mynediad yn derbyn hyfforddiant penodol i addysg uwch, ond mae rhaglen hyfforddi i'r Coleg cyfan am fod y staff yn gweithio ledled y meysydd addysg bellach ac addysg uwch. Mae'r staff academiaidd sy'n cynnal cyfweiliadau ar gyfer darpariaeth ar etholfraint yn derbyn hyfforddiant a chanllawiau llym am y meini prawf mynediad gan y cyrff dyfarnu perthnasol. Darperir cyfleoedd i ddatgelu anghenion dysgu penodol pan wneir ceisiadau, cyfweiliadau ac wrth gyrraedd er mwyn sicrhau bod cymorth ar gael gynted ag sy'n bosibl.

2.18 Mae'r Coleg yn darparu llyfryn cryno am ei gynnig addysg uwch i'r ymgeiswyr sy'n llwyddo ar y cam cyfworld. Mae'r llyfryn yn gyfrwng cyfathrebu effeithiol gyda'r ymgeiswyr ac mae'n cynnwys manylion am y broses o geisio Cyllid Myfyrwyr a'r Lwfans Myfyrwyr Anabl, gwybodaeth am gludiant a manylion cofrestru a'r dogfennau sydd eu hangen wrth gofrestru. Mae'r llyfryn defnyddiol a chynhwysfawr am ei gynnig addysg, sy'n helpu myfyrwyr i fynd i addysg uwch, yn **arfer da**.

2.19 Mae polisiâu'r cyrff dyfarnu ar gyfer cydnabod dysgu blaenorol ar gael i'r myfyrwyr drwy ddolenni at wefannau'r prifysgolion yn eu llawlyfrau rhaglenni. Mae Prifysgol De Cymru'n darparu canllawiau a gweithdy am gydnabod dysgu blaenorol i staff y Coleg. Mae gan Pearson hefyd bolisi cydnabod dysgu blaenorol, ond, er bod y Rheolwr Ansawdd yn gwirio ffurflenni

cofrestru er mwyn gweld a ydynt yn gymwys ar gyfer cydnabod dysgu blaenorol, mae'n aneglur sut y byddai darpar fyfyrwyr yn cael gafael ar yr wybodaeth hon cyn gwneud cais. Felly, mae'r tîm adolygu'n **argymhell** bod y Coleg yn sicrhau ei fod yn egluro i'r myfyrwyr yn ystod y broses ymgeisio bod cyfle i bobl dderbyn cydnabyddiaeth i'w dysgu blaenorol.

2.20 Canfu'r tîm adolygu anghysonderau yn yr wybodaeth am y cyrsiau rhwng y gwahanol lwyfannau gwybodaeth, sef y cardiau cwrs, gwefan y Coleg a gwefan UCAS. Enghraifft o hyn oedd y cwrs HND mewn Rheolaeth Sba, Trin Gwallt a Harddwch, nad oedd un teitl cyson iddo ar amser yr adolygiad. Mae'r myfyrwyr sy'n cwblhau'r cwrs yn derbyn dyfarniad o'r enw HND mewn Rheolaeth Trin Gwallt a Harddwch, er nad oes modiwlau'n ymwneud â thrin gwallt yn rhan o'r cwricwlwm y mae myfyrwyr y Coleg yn ei ddysgu mewn gwirionedd. Rhoddir yr wybodaeth hon ar wefan y Coleg ond nid ar y cardiau cwrs. Mae mynediad UCAS yn gwahaniaethu'n glir erbyn hyn rhwng teitl y cwrs a'r dyfarniad y bydd y myfyrwyr yn ei dderbyn.

2.21 Enghraifft arall yw'r diffyg gwybodaeth ynglŷn â'r gofynion am wiriad gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar y cardiau cwrs ac ar wefan y Coleg ar gyfer cyrsiau sy'n gofyn gwiriad o'r fath. Dyma'r cyrsiau hynny: rhaglenni Gradd Sylfaen mewn Plentynod Cynnar, Gradd Sylfaen mewn Cymorth Dysgu, a Gradd Sylfaen mewn Datblygu a Rheoli Chwaraeon; nid yw'r gofyniad am wiriad gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'i amlinellu ar wefan y Coleg ar gyfer unrhyw rai o'r rhaglenni hyn, ac mae gwefan UCAS yn nodi'r gofyniad ar gyfer y rhaglen Gradd Sylfaen mewn Plentynod Cynnar, ond nid ar gyfer y rhaglen Gradd Sylfaen mewn Cymorth Dysgu. Nid yw'r rhaglen Gradd Sylfaen mewn Datblygu a Rheoli Chwaraeon wedi'i rhestru ar wefan UCAS. Roedd barn y myfyrwyr yn amrywiol hefyd ynglŷn â chywirdeb yr wybodaeth am y rhaglenni y maent yn ei derbyn cyn gwneud eu ceisiadau. Mae argymhelliad o dan Ddisgwyliad C yn adran 3 yr adroddiad yma'n ymateb i'r problemau hyn gyda gwybodaeth goll neu gamarweiniol.

2.22 Mae gan y Coleg bolisiâu a gweithdrefnau ar gyfer recriwtio, dethol a derbyn myfyrwyr sy'n glir a chynhwysfawr, a chanddynt strwythurau a phrosesau priodol yn sail iddynt. Mae'r arferion yn deg, yn gyffredinol eglur, ac yn gefnogol. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni

Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (B3): Mae darparwyr addysg uwch, wrth weithio gyda'u staff, eu myfyrwyr a'u rhanddeiliaid eraill, yn llunio, ac yn adolygu a gwella'n systematig, y dull o ddarparu cyfleoedd dysgu ac arferion addysgu, fel bod modd i bob myfyrwr ddatblygu fel dysgwr annibynnol, astudio eu pwnc/pynciau dewisedig yn fanwl a gwella eu gallu i feddwl yn ddadansoddol, yn feirniadol ac yn greadigol.

Cod Ansawdd, Pennod B3: Dysgu ac Addysgu

Y canfyddiadau

2.23 Mae Strategaeth Addysgu, Dysgu ac Asesu'r Coleg yn nodi gweledigaeth y Coleg ar gyfer darparu profiadau dysgu ac addysgu rhagorol i'w fyfyrwyr i gyd. Mae'r Strategaeth, a ddatblygwyd gan y Grŵp Rhagoriaeth mewn Addysgu a Dysgu, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r holl feysydd dysgu, gan gynnwys tiwtoriaid o raglenni addysg uwch, yn ymdrin â phob adran o'r Coleg, gan gynnwys addysg uwch, ac yn nodi amcanion allweddol ar gyfer gwella'r dysgu a'r addysgu.

2.24 Mae'r Coleg yn cydnabod mor bwysig yw datblygiad staff i gyflawni'r Strategaeth hon ac mae ganddo brosesau yn eu lle i alluogi staff i wneud gweithgareddau ysgolheigaidd.

2.25 I benderfynu a yw amcanion y Strategaeth yn cael eu cyflawni, gwneir gwaith monitro blynyddol a hunanasesu, wedi'i hysbysu gan gyfraniad y staff a'r myfyrwyr, ac edrychir ar ganlyniadau proses ffurfiol o arsylwi gwersi ar draws y Coleg.

2.26 Byddai'r ffocws ar ansawdd y cyfleoedd dysgu sydd wedi'u hesbonio yn Strategaeth Addysgu, Dysgu ac Asesu'r Coleg, a'r strwythur adrodd cynhwysfawr sy'n cynnwys rhaglenni addysg uwch y Coleg, yn caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni.

2.27 Profodd y tîm adolygu'r broses drwy graffu'n fanwl ar ddogfen hunanwerthuso a Strategaeth Addysgu, Dysgu ac Asesu'r Coleg. Archwiliwyd dull y Coleg o arsylwi gwersi mewn cyfarfodydd gyda'r staff uwch a'r tiwtoriaid, ac adolygwyd trywydd archwilio arsylwadau. Ystyriwyd Strategaeth Adnoddau Dynol (drafft) y Coleg yng nghyd-destun datblygiad staff. Bu'r tîm hefyd yn trafod profiad y myfyrwyr o'r dysgu, yr addysgu, yr asesu a'r gefnogaeth mewn cyfarfod gyda myfyrwyr o amrywiaeth o'r rhaglenni, ac yn ystyried cyflwyniad y myfyrwyr i'r adolygiad yma.

2.28 Rhoddodd y myfyrwyr sylwadau positif am eu profiad o'r dysgu a'r addysgu, ac i ba raddau y maent yn cael eu datblygu a'u herio wrth iddynt drosglwyddo i astudio ar lefel addysg uwch. Roeddent yn cadarnhau bod y tiwtoriaid yn ceisio datblygu'r myfyrwyr i fod yn ddysgwyr annibynnol ac yn cefnogi'r myfyrwyr ar y daith hon. Roedd y myfyrwyr yn frwdfrydig yn eu cydnabyddiaeth o'r gefnogaeth y maent yn eu derbyn gan eu tiwtoriaid ac i ba raddau y mae pob aelod o'r staff yn y Coleg yn hawdd mynd atynt. Dywedodd y myfyrwyr eu bod yn gweld tystiolaeth o weithgareddau ysgolheigaidd y staff yn dod i'r golwg mewn sesiynau addysgu.

2.29 Cydnabu'r myfyrwyr y lefel academiaidd yr oeddent yn astudio arni ac maent yn gwerthfawrogi'r wybodaeth, y cyngor a'r arweiniad y maent yn eu derbyn mewn perthynas â chanlyniadau dysgu a meini prawf asesu, gan nodi bod yr adborth am asesiad yn brydlon ac yn ddefnyddiol o ran eu helpu i wella eu perfformiad academiaidd. Mae'r staff yn cadarnhau eu bod yn gweld asesiad fel cyfrwng ar gyfer dysgu yn ogystal â ffordd o wirio cyrhaeddiad.

2.30 Mae 'Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang' yn thema allweddol ar bob lefel o gwricwlwm y Coleg, ac mae wedi'i gynnwys yn rhaglenni addysg uwch y Coleg. Mae'r thema'n derbyn ystyriaeth allweddol mewn arsylwadau gwersi ffurfiol. Ar gyfer y rhaglenni mewn Rheolaeth Sba, Peirianeg ac yn y Gwyddorau, pwysleisir dealltwriaeth o thema cynaliadwyedd, oherwydd natur rheoli gwastraff ac adnoddau o fewn y diwydiannau

hyn. Mae iaith a diwylliant Cymru, a lle Cymru yn y cyd-destun rhyngwladol, yn thema sydd wedi'i gynnwys hefyd yn narpariaeth addysg uwch y Coleg.

2.31 Gall y myfyrwyr roi adborth ar ansawdd eu profiad dysgu mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys drwy holiaduron adborth modiwlau. Fodd bynnag, canfu'r tîm adolygu bod y broses hon yn anghyson yn y ffordd y caiff ei gweithredu ac nad oes goruchwyliaeth gyflawn o ganlyniadau'r broses.

2.32 Dadansoddir canlyniadau'r myfyrwyr yn flynyddol ac maent hefyd yn rhan o'r broses o fonitro'r dysgu a'r addysgu. Archwilir cyfraddau llwyddiant a thueddiadau i sicrhau ansawdd canlyniadau'r myfyrwyr.

2.33 Defnyddir rhith-amgylchedd dysgu'r Coleg, yn ogystal â rhai ei bartneriaid dyfarnu, fel platform i rannu deunyddiau dysgu ac, ar rai rhaglenni, i gyflwyno gwaith myfyrwyr. Defnyddir meddalwedd canfod llên-ladrad ar rai o'r rhaglenni fel cyfrwng o fewn y rhith-amgylchedd dysgu i alluogi'r myfyrwyr i wirio eu gwaith cyn y dyddiad cyflwyno. Mae syniadau arloesol a deunyddiau generig ar gyfer dysgu ac addysgu ar gael ar rith-amgylchedd dysgu'r Coleg i'w staff, y 'Parth Athrawon', sydd ag adran benodol i'r staff addysg uwch. Ar hyn o bryd, nid oes gan y Coleg fecanwaith i werthuso ansawdd neu gysondeb y rhith-amgylchedd dysgu fel cyfrwng i gefnogi'r addysgu a'r dysgu.

2.34 Nid oes gan y Coleg raglen ymsefydlu benodol i staff sy'n newydd i addysgu mewn addysg uwch, er bod y staff yn cael cyflwyniad ymsefydlu generig a chymorth mentor penodol.

2.35 Mae'r Coleg yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus i'w staff i gyd, y mae gofyn iddynt wneud 30 awr o ddatblygiad proffesiynol parhaus y flwyddyn. Datblygir cyfleoedd hyfforddi penodol i wella'r dysgu o fewn y timau maes dysgu ac mae'r mentrau i'r Coleg cyfan yn cael eu trefnu gan y Rheolwr Ansawdd ar gyfer Datblygu Dysgu ac Addysgu mewn cydweithrediad â'r adran adnoddau dynol. Pennir anghenion datblygiad aelodau unigol o'r staff drwy adolygu eu perfformiad yn flynyddol.

2.36 Mae gan y staff ar y rhaglenni addysg uwch gymwysterau da, ac mae gan nifer ohonynt brofiad perthnasol diweddar yn y sector. Mae gan y mwyafrif o'r staff gymhwyster addysgu ffurfiol: mae gan nifer raddau uwch ac mae rhai yn aelodau o gorff proffesiynol perthnasol. Mae gofyn i'r staff hefyd gael Statws Athro Cydnabyddedig gan y brifysgol ddyfarnu berthnasol er mwyn addysgu ar ei rhaglenni.

2.37 Yn ystod y flwyddyn academaidd 2015-16, llwyddodd y Coleg i sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru i gefnogi rhaglen hyfforddi i athrawon sydd â sgiliau lefel uwch. Defnyddir yr arian hwn o'r Rhaglen Blaenoriaethau Sgiliau i roi bwsariaethau i staff i wneud gweithgareddau ysgolheigaidd, a bydd pob un sy'n derbyn y fwsariaeth yn cyhoeddi eu canfyddiadau ar ddiwedd y flwyddyn academaidd. Defnyddir y gronfa hefyd ar gyfer y rhaglen hyfforddi 'Bridging the Gap', sy'n rhaglen benodol i staff addysg uwch. Mae'r gyfres hon o weithgareddau, mewn partneriaeth â Phrifysgol De Cymru a PCYDDS, yn archwilio gwahaniaethu mewn addysgu ar raglenni addysg uwch. Dosbarthwyd y canlyniadau ar draws y Coleg mewn digwyddiad rhannu arferion ym mis Gorffennaf 2015.

2.38 Mae'r Coleg yn cynyddu ei ymgysylltiad â Fframwaith Safonau Proffesiynol y DU ac mae'n cyfateb ei agwedd tuag at ddysgu ac addysgu gydag egwyddorion allweddol y Safonau. Mae'n derbyn cefnogaeth werthfawr gyda'r gwaith yma gan Brifysgol De Cymru.

2.39 Mae hyrwyddiad ac ymrwymiad y Coleg i ddatblygiad staff sy'n effeithio'n bositif ar ddysgu'r myfyrwyr yn **arfer da**.

2.40 Mae gofynion bob rhaglen am adnoddau ffisegol yn ystyriaeth allweddol yn ystod y camau o gynnig a chymeradwyo cyrsiau. Pennir gofynion adnoddau dilynol drwy brosesau

monitro blynyddol a chynllunio busnes, sydd, yn rhannol, wedi'u hysbysu gan adborth y myfyrwyr am eu profiad dysgu. Roedd y myfyrwyr yn bositif gan fwyaf am ansawdd yr adnoddau ac i ba raddau y mae'r rhain ar gael i'w cefnogi yn eu dysgu.

2.41 Mae'r dull strategol a ddefnyddir gan y Coleg yn sicrhau bod y cyfleoedd dysgu'n cael eu gwella drwy ymrwymiad i ddatblygu'r staff a darparu'r adnoddau priodol i'r holl raglenni. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni

Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (B4): Mae gan ddarparwyr addysg uwch drefniadau ac adnoddau sy'n galluogi myfyrwyr i ddatblygu eu potensial academiaidd, personol a phroffesiynol ac maent yn monitro a gwerthuso'r rhain.

Cod Ansawdd, Pennod B4: Galluogi Datblygiad a Chyflawniad y Myfyriwr

Y canfyddiadau

2.42 Mae'r Coleg yn ceisio datblygu darpariaeth sy'n cwrdd ag anghenion y myfyrwyr hynny sydd eisiau astudio'n lleol i'w cartrefi a datblygu sgiliau galwedigaethol sy'n berthnasol i gyflogaeth.

2.43 Mae'r Is-Bennaeth Gwasanaethau Academiaidd a deoniaid y cyfadrannau'n gyfrifol am les y myfyrwyr. Mae Cynllun Strategol y Coleg yn cyfeirio'n benodol at y cyfrifoldeb hwn er mwyn sicrhau bod y dysgwyr yn cyrraedd safonau uchel ac i ddarparu'r arweiniad a'r gefnogaeth orau i ddysgwyr gan hybu eu hiechyd a'u lles ar yr un pryd.

2.44 Mae deoniaid y cyfadrannau'n arwain yn strategol ar y gwasanaethau a'r cymorth i fyfyrwyr. Mae gan y Rheolwr Cymorth Dysgu'r cyfrifoldeb gweithredol am fyfyrwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r rôl yma'n cynnwys cefnogi'r staff addysgu gydag addasiadau i adnoddau dysgu a ffisegol y rhaglen a chydlynu consesiynau asesu a chymorth unigol.

2.45 Nod Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol 2015-18 y Coleg yw sicrhau bod y myfyrwyr a'r staff i gyd yn cael eu trin yn gyfartal. Mae'r Cynllun yn cael ei fonitro gan Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Coleg. Mae pob maes dysgu'n pennu enghreifftiau o arfer da o ran cynnwys cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn gweithgareddau dysgu ac addysgu drwy'r broses flynyddol o adolygu meysydd dysgu.

2.46 Yn ogystal, mae'r broses flynyddol o fonitro rhaglenni'n galluogi i ddarpariaeth ac effaith y cymorth i fyfyrwyr gael eu monitro, ac i gamau gweithredu cael eu datblygu i adeiladu ar yr arfer da ac ymdrin â meysydd sydd angen eu datblygu. Ystyrir yr adroddiadau gan y Grŵp Gweithrediadau Addysg Uwch a'r Grŵp Cwricwlwm Addysg Uwch a Rheoli Ansawdd.

2.47 Byddai'r raddfa y mae'r Coleg yn defnyddio dull strategol o gefnogi dysgwyr i gyflawni eu potensial, a'r strwythurau adrodd a ddefnyddir i gynnal yr oruchwyliaeth ar elfennau'r strategaeth, yn caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni.

2.48 Profodd y tîm adolygu'r broses drwy graffu'n fanwl ar ddogfen hunanwerthuso'r Coleg a chyflwyniad y myfyrwyr i'r adolygiad yma, ac mewn cyfarfodydd gyda'r staff uwch, y staff addysgu a'r staff cymorth. Ystyriwyd y Disgwyliad yng nghyd-destun Cynllun Strategol, Strategaeth Addysg Uwch 2016-19 a Chynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol 2015-18 y Coleg.

2.49 Siaradodd y tîm adolygu â'r myfyrwyr ac ystyried cofnodion cyfarfodydd y Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, y Grŵp Gweithrediadau Addysg Uwch, a'r Grŵp Cwricwlwm Addysg Uwch a Rheoli Ansawdd. Adolygodd y tîm dystiolaeth sy'n dangos gweithgareddau tiwtora a mesurau a gymerwyd i gefnogi'r myfyrwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol wedi'u nodi.

2.50 Wrth iddynt ymgeisio a chofrestru, gofynnir i bob myfyriwr ddatgelu unrhyw anabledau neu anghenion penodol am gymorth. Yn achos y myfyrwyr hynny sy'n symud ymlaen o fewn y Coleg, mae'r cymorth a ddarperir ar gyfer anghenion penodol wedi'i sefydlu'n dda yn barod yn aml iawn. Rhoddir cymorth dysgu penodol i'r myfyrwyr hyn sydd wedi datgan fod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r myfyrwyr yn gadarnhaol ynglŷn â faint y maent yn gallu datgelu anghenion ychwanegol a sut y manteisir ar gyfleoedd sy'n digwydd yn naturiol yn ystod eu hastudiaethau i ganfod anghenion o'r fath, drwy waith cwrs, er enghraifft.

Roeddent yr un mor bositif ynglŷn ag ymateb effeithiol y Coleg i anghenion o'r fath a'r cymorth sydd wedi'i drefnu.

2.51 Mae'r holl fyfyrwyr llawn amser yn perthyn i grŵp tiwtora er mwyn cefnogi eu hastudiaethau a'u cynnydd. Mae'r rhaglen diwtora'n cynnwys sesiynau un-i-un lle mae'r tiwtor a'r myfyriwr yn trafod y perfformiad cyfredol. Mae'r myfyrwyr yn gwerthfawrogi'r sesiynau tiwtora hyn, er nad ydynt oll yn eu gweld fel elfennau ar wahân, o ystyried eu bod yn derbyn cymorth parod a chyfleus gan eu tiwtoriaid.

2.52 Mae Canolfan Adnoddau Dysgu'r Coleg a'i staff yn chwarae rôl werthfawr mewn cefnogi timau rhaglen ac mewn darparu cymorth uniongyrchol i'r myfyrwyr i ddatblygu sgiliau dysgu annibynnol.

2.53 Ar ddechrau eu hastudiaethau, mae'r myfyrwyr yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau ymsefydlu sydd wedi'u trefnu gan bob un o'r adrannau yn y Coleg. Ar gyfer nifer o'r rhaglenni llawn amser, mae'r corff dyfarnu perthnasol yn cyfrannu hefyd at y gweithgareddau ymsefydlu hyn. Mae'r myfyrwyr yn gwerthfawrogi'r gweithgareddau hyn fel ffordd o wneud trosglwyddiad llwyddiannus i'w hastudiaethau ym maes addysg uwch. Mae'r Coleg yn ceisio gwella ei broses ymsefydlu i'r holl fyfyrwyr llawn amser drwy gyflwyno rhaglen ar y cyd i hybu teimlad gwell o golegoldeb ymysg ei fyfyrwyr addysg uwch.

2.54 Mae gan bob adran swyddogaethol yn y Coleg eiriolwr addysg uwch i sicrhau bod anghenion y myfyrwyr addysg uwch yn cael eu cynrychioli ymhob polisi a gweithdrefn. Mae'r staff yn gwerthfawrogi rôl yr eiriolwyr hyn yn y broses o godi proffil y ddarpariaeth addysg uwch ac wrth helpu i sicrhau bod anghenion y myfyrwyr addysg uwch yn cael eu hateb.

2.55 Mae gan y Coleg brosesau effeithiol i gefnogi'r myfyrwyr yn eu trosglwyddiad i astudio ar lefel addysg uwch. Lle datgelir neu y canfyddir anghenion dysgu ychwanegol, mae adnoddau ffisegol a staff yn cael eu defnyddio i ateb anghenion o'r fath. Mae rôl yr eiriolwr addysg uwch yn helpu i godi proffil y myfyriwr addysg uwch yn y cyswllt hwn, ac mae gan y Coleg brosesau monitro effeithiol er mwyn bod yn ymwybodol o effaith ei weithgareddau cefnogi myfyrwyr. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni
Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (B5): Mae darparwyr addysg uwch yn cymryd camau pwrpasol i gynnwys yr holl fyfyrwyr, yn unigol ac ar y cyd, yn bartneriaid yn y broses o sicrhau a gwella eu profiad addysgol.

Cod Ansawdd, Pennod B5: Ymgysylltiad â'r Myfyrwyr

Y canfyddiadau

2.56 Mae gan y Coleg Strategaeth Cynnwys Dysgwyr ar gyfer y Coleg cyfan. Mae hon yn amlinellu ffyrdd o gyfathrebu ac ymgynghori â'r myfyrwyr a sut mae dysgwyr i gael eu cynnwys yng ngrwpiau cynrychioli'r myfyrwyr ac yn natblygiad y cwricwlwm. Mae hefyd yn nodi'r dangosyddion perfformiad sy'n dangos effeithiolrwydd y Strategaeth. Mae'r Coleg yn ymgysylltu â'r myfyrwyr yn bennaf ar sail anffurfiol, drwy sesiynau tiwtora i fyfyrwyr a thrafodaethau grŵp gyda staff addysgu. Mae arolygon dysgwr yn ddulliau mwy ffurfiol gan y Coleg o ymgysylltu â'r myfyrwyr ac yntau newydd ddatblygu arolwg sy'n benodol berthnasol i fyfyrwyr addysg uwch er mwyn casglu adborth.

2.57 Byddai'r dulliau sydd ar waith i ymgysylltu â'r myfyrwyr yn caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni.

2.58 Wrth ystyried y Disgwyliad hwn, archwiliodd y tîm adolygu ddogfennau perthnasol megis strategaethau, cylchoedd gwaith a chofnodion y pwyllgorau, ymatebion i arolygon y myfyrwyr, a chynlluniau gweithredu. Profodd y tîm ei ganfyddiadau mewn cyfarfodydd gyda'r uwch reolwyr, y staff academiaidd a'r staff cymorth, y myfyrwyr a chynrychiolwyr y myfyrwyr.

2.59 Nid yw Strategaeth Cynnwys Dysgwyr y Coleg, sy'n ymwneud â'r myfyrwyr addysg uwch a'r myfyrwyr addysg bellach sy'n astudio yn y Coleg, yn amlinellu'n ddigonol y Strategaeth o ymgysylltu â myfyrwyr addysg uwch. Er enghraifft, derbyniodd y tîm adolygu adroddiadau anghyson gan y myfyrwyr yn ymwneud â dethol, cynrychioli a hyfforddi cynrychiolwyr myfyrwyr. Dewisir cynrychiolwyr y myfyrwyr i raddau mawr yn wirfoddol neu drwy enwebu. Mae'r cynrychiolwyr yn mynychu Cyngor y Myfyrwyr a grwpiau ffocws i'r Coleg cyfan, y mae cofnodion a chynlluniau gweithredu'n codi ohonynt. Mae rhai timau cwrs yn gwahodd cynrychiolwyr myfyrwyr i fynychu rhannau o gyfarfodydd timau cwrs, er mai dim ond ar lond llaw o gysiau y gwneir hyn ac nid yw'n ddull sy'n cael ei weithredu'n systematig ar draws yr holl gysiau addysg uwch. Derbyniodd y tîm adolygu dystiolaeth o hyfforddiant i gynrychiolwyr myfyrwyr a'u llawlyfrau, er bod y myfyrwyr y cyfarfu'r tîm â hwy'n dweud nad oeddent yn gwybod am y deunyddiau hyn. Mae gan y Coleg ddau le i fyfyrwyr ar ei fwrdd llywodraethwyr ond nid yw'r naill na'r llall yn fyfyrwyr addysg uwch ar hyn o bryd ac nid oes myfyrwyr addysg uwch yn mynd i bwyllgorau ymgynghori ar gyfer addysg uwch. O ystyried y rhwystrau wrth geisio sicrhau cysondeb ar draws y rhaglenni, a chofio'r heriau sy'n codi mewn perthynas â chynhwysedd am fod y partneriaid dilysu'n niferus a'r dulliau astudio'n amrywiol, mae'r tîm adolygu'n **argymhell** bod y Coleg yn sicrhau bod y Strategaeth Cynnwys Dysgwyr yn cynnwys y myfyrwyr yn systematig ar lefelau strategol a gweithredol.

2.60 Mae gan y Coleg god ymddygiad sy'n amlinellu disgwyliadau'r Coleg, ac sy'n berthnasol i holl fyfyrwyr y Coleg.

2.61 Mae'r myfyrwyr yn bwydo i mewn i ddatblygiad y cwricwlwm drwy adolygiadau modiwl, sy'n cael eu gweithredu ar ddiwedd pob modiwl ac yn bwydo i mewn i'r broses flynyddol o adolygu rhaglenni. Ond, derbyniodd y tîm adolygu ymateb cymysg pan ofynnwyd a oedd y myfyrwyr yn cwblhau'r rhain bob tro. Mae'r myfyrwyr yn bwydo i mewn i'r penderfyniad i gynnig darpariaeth addysg uwch newydd, gan weithredu fel corff ymgynghorol ar lefel grŵp ffocws cyn y penderfyniad strategol i ddilysu rhaglenni newydd. Ond, nid ydynt yn cymryd rhan mewn gweithgareddau dilysu neu gymeradwyo.

2.62 Mae'r Coleg yn cynnal cynhadledd myfyrwyr flynyddol sy'n agored i'w fyfyrwyr i gyd. Yn y gynhadledd mae prif siaradwyr sy'n ysbrydoli ac mae cyfleoedd i'r myfyrwyr gyflwyno bidiau am gyllid i brynu offer yn eu meysydd astudio. Mae hyn yn rhoi teimlad o 'berchnogaeth' ar eu meysydd i'r myfyrwyr, ac mae'n datblygu sgiliau ehangach megis gweithio mewn tîm, rhwydweithio ac arweiniad. Mae gan y Coleg hefyd agwedd werthusol tuag at y digwyddiad yma, a cheisir barn y myfyrwyr er mwyn gwella'r agwedd hon o un flwyddyn i'r nesaf. Mae cynhadledd y myfyrwyr, sy'n hybu ymgysylltiad myfyrwyr gyda'u cyfleoedd dysgu, yn **arfer da**.

2.63 Yn ystod yr ymweliad adolygu, bu'r tîm yn archwilio'r ffordd mae'r Coleg yn rhoi adroddiad am unrhyw newidiadau a wnaed o ganlyniad i farn y myfyrwyr. Pan gyfarfu'r tîm â'r myfyrwyr, roeddent yn dweud bod hyn yn digwydd yn anffurfiol ar lefel y cwrs yn bennaf, a chafwyd enghreifftiau ganddynt o welliannau a wnaed o ganlyniad i'w hadborth.

2.64 Ar hyn o bryd, mae gan y Coleg ddull anffurfiol ar y cyfan o ymgysylltu myfyrwyr ar lefel y cwrs, a'r rheswm am hyn yn bennaf yw natur amrywiol darpariaeth addysg uwch y Coleg a'r heriau y mae amrywiol gyrff dyfarnu ac amrywiol ddulliau astudio'n eu cyflwyno. Fodd bynnag, mae'r tîm adolygu'n cydnabod y camau sy'n cael eu cymryd i sicrhau dull gweithredu cyson ar draws y ddarpariaeth, gyda chyflwyniad y fframwaith cynnwys dysgwyr a'r arolygon sy'n benodol berthnasol i addysg uwch. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni

Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (B6): Mae darparwyr addysg uwch yn gweithredu prosesau asesu sy'n gyfiawn, dilys a dibynadwy, yn cynnwys y rheini ar gyfer cydnabod dysgu blaenorol, sy'n galluogi pob myfyriwr i arddangos i ba raddau y maent wedi cyflawni'r canlyniadau dysgu a fwriedir ar gyfer y credyd neu'r cymhwyster sy'n cael ei geisio.

Cod Ansawdd, Pennod B6: Asesu Myfyrwyr a Chydnabod Dysgu Blaenorol

Y canfyddiadau

2.65 Mae gan y cyrff dyfarnu a Pearson y cyfrifoldeb troswaol am sicrhau bod y prosesau asesu'n galluogi'r myfyrwyr i arddangos i ba raddau y maent wedi cyflawni'r canlyniadau dysgu a fwriedir. Mae'r prosesau cymeradwyo rhaglenni'n cynnwys craffu ar strategaethau asesu i sicrhau bod eu cynllun yn briodol. Mae'r prosesau ar gyfer cymeradwyo tasgau asesu a meini prawf graddio, a'r rheoliadau ar gyfer cynnydd a dyfarnu cymwysterau wedi'u diffinio gan y cyrff dyfarnu a Pearson. Mae gan y Coleg hefyd ei weithdrefnau mewnol ei hun yn ymwneud ag asesu a chynnal arholiadau, i ymdrin ag unrhyw amgylchiadau lliniarol y mae myfyrwyr yn tynnu sylw atynt ac i ystyried unrhyw apeliadau yn erbyn penderfyniadau asesu. Mae'r cyrff dyfarnu a Pearson yn gyfrifol hefyd am gydnabod dysgu blaenorol, ond mae'r Coleg yn cefnogi'r myfyrwyr drwy'r broses yma.

2.66 Byddai'r prosesau hyn yn caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni.

2.67 Profodd y tîm adolygu'r Disgwyliad drwy adolygu dogfennaeth ddilysu, disgrifiadau modiwlau, llawlyfrau myfyrwyr, briffiau aseiniad, a pholisïau a rheoliadau'r Coleg, y cyrff dyfarnu a Pearson. Trafodwyd prosesau asesu hefyd mewn cyfarfodydd gyda staff uwch, staff addysgu a staff gweinyddol y Coleg, a gyda swyddogion cyswllt o'r cyrff dyfarnu.

2.68 Mae'r broses o osod asesiadau'n amrywio yn ôl gweithdrefnau a rheoliadau'r corff dyfarnu a Pearson, a natur y rhaglen berthnasol. Gall y tasgau asesu gael eu gosod gan yr aelod perthnasol o staff addysgu'r Coleg neu gan aelod o staff addysgu'r corff dyfarnu. Ond, ymhob achos, rhaid i'r tasgau asesu drafft gael eu cymeradwyo'n gyntaf gan aelod perthnasol o staff academiaidd y corff dyfarnu ei hun ac yna gan arholwr allanol y rhaglen i gadarnhau eu bod yn addas i'w pwrpas cyn iddynt gael eu gweinyddu. Mae systemau yn eu lle i sicrhau bod yr arferion asesu'n gyfartal pan ddarperir modiwl gan y Coleg a'r corff dyfarnu, neu pan fydd wedi'i roi ar etholfraint gan y corff dyfarnu i ddau neu fwy o sefydliadau darparu. Mae'n rhaid i bob aelod o'r staff sy'n cymryd rhan mewn gosod asesiadau fod â Statws Athro Cydnabyddedig gyda'r corff dyfarnu.

2.69 Ar gyfer rhaglenni a gymeradwyr gan Pearson, mae'r asesiadau'n cael eu gwirio'n fewnol a'u gwirio gan y gwiriwr safonau yn rhan o'r broses fonitro flynyddol.

2.70 Mae briffiau'r aseiniadau'n glir ac yn nodi'r canlyniadau dysgu sy'n cael eu profi, y meini prawf graddio, y cynllun marcio a'r dyddiad cyflwyno. Mae dyddiaduron asesu ar-lein yn helpu myfyrwyr i gadw llygad ar ddyddiadau cyflwyno, fel eu bod yn gallu cyflwyno gwaith yn brydlon, ac hefyd weld pryd y gallent ddisgwyl derbyn adborth. Wrth asesu myfyrwyr yn y gweithle, mae templedi safonol a threfnau adrodd yn sicrhau nad oes gwahaniaethau rhwng arsylwyr.

2.71 Mae llawlyfrau'r rhaglenni'n rhoi manylion y gwahanol ddulliau o asesu a ddefnyddir ymhob modiwl a'u cyfraniad at y marc am y modiwl cyfan. Maent hefyd yn dangos sut i roi gwybod am amgylchiadau lliniarol ac apelio yn erbyn penderfyniadau asesu. Ar gyfer gwybodaeth yn ymwneud â chynnydd ac ar gyfer dyfarnu cymwysterau, cyfeirir myfyrwyr at reoliadau'r corff dyfarnu perthnasol. Cadarnhaodd y myfyrwyr y cyfarfu'r tîm adolygu â nhw eu bod yn deall sut mae'r gwahanol rannau o'u rhaglenni'n cael eu hasesu, a'u bod yn ymwybodol o'r rheoliadau sy'n berthnasol i'w dyfarniad, gan gynnwys y rheiny sy'n ymwneud ag ail asesu.

2.72 Mae gan y Coleg Gynllun Iaith Gymraeg, a gall y myfyrwyr gyflwyno gwaith ysgrifenedig yn y Gymraeg. Pan fydd hyn yn digwydd, mae'r Coleg yn gweithio gyda'r corff dyfarnu perthnasol i sicrhau ei fod yn cael ei farcio a'i safoni'n briodol.

2.73 Mae'r Rheolwyr Maes Dysgu'n monitro prydlondeb yr adborth. Polisi'r Coleg yw y disgwylir derbyn adborth o fewn 20 diwrnod gwaith. Mae mwyafrif y myfyrwyr yn credu bod yr adborth y maent yn ei dderbyn yn brydlon ac yn ddefnyddiol.

2.74 Mae gan y Coleg weithdrefnau i atal a chanfod arferion academiaidd annerbyniol. Mae'r myfyrwyr yn ymwybodol o'r hyn ydyw llên-ladrad, a darperir arweiniad cynhwysfawr ar sut i'w osgoi a mathau eraill o arferion annheg yn llawlyfrau'r myfyrwyr. Defnyddir meddalwedd canfod llên-ladrad fel cyfrwng hyfforddi i'r myfyrwyr ac hefyd fel ffordd i'r staff addysgu ei ganfod. Bydd unrhyw achosion o arferion a allai fod yn annheg naill ai'n cael eu cyfeirio at y corff dyfarnu perthnasol neu, yn achos rhaglenni Pearson, yn derbyn sylw o dan delerau polisi asesu ac apelio'r Coleg, fel y bo'n briodol.

2.75 Mae adroddiadau'r arholwyr allanol a'r gwirwyr safonau'n cadarnhau bod y dulliau asesu'n briodol a bod digon o wybodaeth ar gael iddynt ynghyd â gwaith wedi'i farcio gan fyfyrwyr i'w galluogi i gyflawni eu gwaith yn llawn.

2.76 Mae'r cyrff dyfarnu'n galw ac yn cadeirio byrddau arholi ac mae staff y Coleg yn mynd iddynt. Gwneir penderfyniadau sy'n ymwneud â chynnydd myfyrwyr a dyfarnu credydau a chymwysterau yn unol â'u rheoliadau hwy. Y Coleg sy'n galw'r byrddau asesu ar gyfer rhaglenni Pearson. Lle bo'n ofynnol, mae unrhyw waith ailasesu'n dilyn gweithdrefnau'r corff dyfarnu neu Pearson, ac mae'r staff addysgu a'r arweinwyr cwricwlwm yn rhoi cyngor i'r myfyrwyr am yr hyn sy'n ofynnol.

2.77 Mae'r cyrff dyfarnu'n gyfrifol am gydnabod dysgu blaenorol, er bod y Coleg yn cefnogi'r myfyrwyr drwy'r broses. Fodd bynnag, nid yw'n esbonio'n eglur ar wefan y Coleg, nac mewn gwybodaeth arall am raglenni, bod cyfle i dderbyn cydnabyddiaeth am ddysgu blaenorol. Cyfeirir at hyn ymhellach yn yr adroddiad yma mewn perthynas â Disgwyliadau B2 a C.

2.78 Mae'r Coleg yn gweithredu prosesau asesu sy'n addas ac yn ddibynadwy. Mae'r arholwyr allanol a'r gwirwyr safonau'n ardystio effeithiolrwydd y gweithdrefnau ac mae'r myfyrwyr yn rhoi sylwadau positif am ansawdd yr adborth y maent yn ei dderbyn. Mae'r Coleg yn glynu at weithdrefnau rheoleiddio ei gyrff dyfarnu ac felly gall y myfyrwyr deimlo'n dawl eu meddwl bod unrhyw ddyfarniad a dderbyniant yn gydradd â hwnnw a roddir i fyfyrwyr sy'n ceisio dyfarniadau cyfatebol yn y sefydliad cartref. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni

Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (B7): Mae darparwyr addysg uwch yn gwneud defnydd gofalus o arholwyr allanol.

Cod Ansawdd, Pennod B7: Arholi Allanol

Y canfyddiadau

2.79 Mae'r arholwyr allanol a'r gwirwyr safonau'n darparu arbenigedd allanol annibynnol mewn perthynas â chynnal safonau academiaidd, ac maent yn cadarnhau a yw'r safonau academiaidd trothwy'n cael eu cyflawni ai peidio. Maent yn gwirio bod prosesau a gweithdrefnau mewnol ar gyfer asesu myfyrwyr a dyfarnu credyd academiaidd yn deg ac yn gyson.

2.80 Y corff dyfarnu perthnasol sy'n gyfrifol am benodi arholwyr allanol, ac mae hefyd yn pennu'r cylch gwaith ar gyfer y penodi. Mae Pearson yn penodi gwirwyr safonau ar gyfer ei raglenni, y mae eu rôl wedi'i nodi yn nogfen Pearson 'Adolygu a Datblygu Ansawdd'.

2.81 Derbynnir adroddiadau'r arholwyr allanol a'r gwirwyr safonau gan dîm addysgu'r rhaglen a chânt eu hystyried ymhellach gan Grŵp Cwricwlwm Addysg Uwch a Rheoli Ansawdd y Coleg.

2.82 Mae'r sylwadau a wneir gan yr arholwyr allanol a'r gwirwyr safonau'n derbyn sylw hefyd yn yr adroddiadau monitro blynyddol ar lefel y rhaglenni

2.83 Mae strwythur adrodd y Coleg yn sicrhau y gwneir trosolwg o adroddiadau'r arholwyr allanol a'r gwirwyr safonau er mwyn pennu themâu cyffredin, a themâu sy'n benodol berthnasol i raglenni unigol, yn ymwneud ag arferion da a meysydd sydd angen eu datblygu. Mae prosesau'r Coleg hefyd yn ymdrin â datblygu cynlluniau gweithredu mewn ymateb i adroddiadau o'r fath. Byddai hyn yn caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni.

2.84 Profodd y tîm y broses drwy graffu'n ofalus ar hunanwerthusiad y Coleg a thrwy ystyried y ffordd y mae strwythurau rheoli ac adrodd y Coleg yn caniatáu i adroddiadau'r arholwyr allanol a'r gwirwyr safonau gael eu derbyn ac yr ymateb iddynt. Adolygwyd cofnodion cyfarfodydd y pwyllgorau perthnasol, yn ogystal ag adroddiadau monitro blynyddol y rhaglenni. Archwiliwyd y Disgwyliad ymhellach mewn cyfarfodydd gyda'r staff uwch, y staff addysgu a gyda chynrychiolwyr y cyrff dyfarnu. Ystyriwyd amrywiaeth eang o adroddiadau'r arholwyr allanol a'r gwirwyr safonau.

2.85 Gwneir gwaith arholi allanol drwy ymweliad blynyddol, sy'n cynnwys adolygu sampl o'r gwaith wedi'i asesu, a mynychu byrddau asesu. Ar gyfer y rhaglenni Cenedlaethol Uwch, mae'r gwiriwr safonau'n cwrdd â'r myfyrwyr i gasglu eu barn am y prosesau asesu a'r adnoddau sydd ar gael iddynt. Mae'r gwiriwr safonau hefyd yn gwirio dogfennaeth y broses wirio fewnol ar gyfer briffiau aseiniad a phenderfyniadau asesu, yn ogystal â curricula vitae'r staff. Ymhob achos, cynhyrchir adroddiad sy'n cadarnhau a yw safonau academiaidd trothwy'n cael eu cyflawni. Mae'r adroddiadau'n gwirio bod y prosesau a'r gweithdrefnau mewnol ar gyfer asesu myfyrwyr a dyfarnu credyd academiaidd yn deg ac yn gyson.

2.86 Mae'r adroddiadau y bu'r tîm adolygu'n edrych arnynt yn cadarnhau bod y safonau academiaidd yn cael eu cyflawni. Er enghraifft, yn adroddiad yr arholwr allanol ar gyfer y rhaglenni Tystysgrif Broffesiynol mewn Addysg i Raddedigion (TBAR) a Thystysgrif Broffesiynol mewn Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (PCET) gyda Phrifysgol De Cymru, rhoddwyd sylwadau ffafriol am ansawdd yr asesu a'r marcio a'r ffordd ragorol yr anodir papurau atebion arholiadau. Cadarnhaodd adroddiad yr arholwr allanol ar gyfer y rhaglen Gradd Sylfaen mewn Datblygu a Rheoli Chwaraeon a ddilysir gan PCYDDS, bod y canlyniadau dysgu wedi'u halinio â'r dulliau asesu, bod y graddau a ddyfarnwyd yn gymesur â'r meini prawf graddio, a bod y modiwlau a'r asesiadau wedi'u halinio â Datganiadau Meincnodi Pwnc perthnasol.

2.87 Mewn rhai achosion, nododd yr arholwr allanol neu'r gwiriwr safonau agweddau y dylai tîm y cwrs ymdrin â nhw. Er enghraifft, awgrymodd adroddiad y gwiriwr safonau ym mis Mai 2015,

ar gyfer y cwrs HND mewn Rheolaeth Trin Gwallt a Harddwch, y dylai'r aseswyr adolygu'r briffiau aseiniad i sicrhau bod y tasgau'n caniatáu i'r myfyrwyr gyflwyno tystiolaeth ar gyfer pob un o'r meini prawf pasio, ac i sicrhau fod pob un o'r chwe maen prawf lefel uwch yn cael ei dargedu'n gywir, ac yn cael ei roi yn y cyd-destun cywir. Nododd adroddiad y gwiriwr safonau ar gyfer y cwrs HNC mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig (Peirianeg Gwasanaethau Adeiladu), fod y briffiau aseiniad yn cael eu gwirio'n fewnol, ond mae'r adborth yn fyr ac nid oes cyfleoedd wedi'u nodi ar gyfer gwelliant.

2.88 Ymhob achos, mae'r adroddiadau blynyddol gan yr arholwyr allanol a'r gwirwyr safonau'n rhan allweddol o brosesau'r Coleg o fonitro'r rhaglenni'n flynyddol. Mae tîm y rhaglen yn rhoi ystyriaeth i'r adroddiadau yn y lle cyntaf, ac yn rhoi ymateb i'r corff dyfarnu neu i Pearson. Rhoddir yr ymatebion yn systematig ar lefel y rhaglenni. Mae'r arweinydd cwricwlwm ar gyfer bob rhaglen yn cyflwyno adroddiad yr arholwr allanol i'r Grŵp Cwricwlwm Addysg Uwch a Rheoli Ansawdd, a phryd hynny trafodir unrhyw argymhellion pwysig a chytunir ar gamau gweithredu. Yn ogystal, mae'r Grŵp Cwricwlwm Addysg Uwch a Rheoli Ansawdd yn rhoi ystyriaeth i drosolwg o'r holl adroddiadau, gan alluogi i themâu gael eu pennu.

2.89 Mae'r Coleg yn nodi mai un o'r meysydd sydd angen eu datblygu yw sicrhau bod adroddiadau'r arholwyr allanol a'r gwirwyr safonau ar gael yn ehangach, tu hwnt i'r tîm addysgu a rheolwyr y Coleg, ac, yn arbennig, i'r myfyrwyr. Mae'r Coleg yn ceisio sicrhau bod adroddiadau o'r fath ar gael i'r myfyrwyr ar rith-amgylchedd dysgu'r Coleg. Cadarnhaodd y myfyrwyr bod anghysondeb yn eu hymwybyddiaeth o'r adroddiadau hyn ac nad yw pob un ar gael iddynt.

2.90 Mae'r Coleg yn gweithio gyda'i arholwyr allanol a'i wirwyr safonau'n effeithiol i'w galluogi i weithredu eu rolau. Mae'r arholwyr allanol a'r gwirwyr safonau'n cadarnhau bod safonau'n cael eu cyrraedd, a, lle maent yn gwneud argymhellion, bod yr arweinwyr cwrs yn rhoi ymatebion yn gyson. Mae strwythurau adrodd y Coleg yn galluogi i'r holl adroddiadau ac ymatebion o'r fath, ac unrhyw gamau gweithredu sy'n codi ohonynt, gael eu goruchwyllo'n effeithiol.

2.91 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni

Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (B8): Mae darparwyr addysg uwch, wrth gyflawni eu cyfrifoldebau am osod a chynnal safonau academiaidd ac am sicrhau a gwella ansawdd y cyfleoedd dysgu, yn gweithredu prosesau effeithiol, rheolaidd a systematig i fonitro ac adolygu rhaglenni.

Cod Ansawdd, Pennod B8: Monitro ac Adolygu Rhaglenni

Y canfyddiadau

2.92 Yn y pendraw, y cyrff dyfarnu a Pearson sy'n gyfrifol am sicrhau bod y rhaglenni'n cael eu monitro a'u hadolygu er mwyn cynnal safonau academiaidd a gwella'r cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr. Ond, yn ymarferol, mae staff y Coleg a'i gyrff dyfarnu'n cydweithio i fonitro ac adolygu'r rhaglenni. Mae staff y Coleg yn monitro'r modiwlau'n flynyddol, yn derbyn adroddiadau gan yr arholwyr allanol, ac yn ymateb iddynt, ac yn cwblhau adroddiadau monitro blynyddol. Ar gyfer y rhaglenni a gymeradwyir gan Pearson, mae'r Coleg yn cwblhau ei adolygiad mewnol ei hun, ac mae'r rhaglen yn cael ei monitro'n flynyddol gan y gwiriwr safonau. Cynhelir goruchwyliaeth sefydliadol gan y Grŵp Cwricwlwm Addysg Uwch a Rheoli Ansawdd, sy'n derbyn yr holl adroddiadau gan arholwyr allanol a gwirwyr safonau, a'r holl adroddiadau monitro blynyddol. Mae'n adrodd i'r Tîm Rheoli a'r Grŵp Cynllunio Strategol.

2.93 Byddai'r prosesau hyn yn caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni.

2.94 Profodd y tîm adolygu'r Disgwyliad drwy graffu ar ffurflenni gwerthuso ac adolygu modiwlau; adroddiadau'r arholwyr allanol a'r gwirwyr safonau, ac adroddiadau monitro blynyddol ar gyfer ystod o'r rhaglenni Cenedlaethol Uwch a gradd sylfaen; a chofnodion pwyllgorau perthnasol y Coleg. Bu'r tîm adolygu hefyd yn trafod prosesau monitro ac adolygu gyda myfyrwyr, staff uwch a staff addysgu'r Coleg, a gyda swyddogion cyswllt o'r cyrff dyfarnu.

2.95 Mae cyfle i'r myfyrwyr roi adborth drwy holiaduron diwedd modiwl ynglŷn â pha mor fodlon ydynt gyda'u dysgu a'u haddysgu, eglurder y tasgau asesu, ac ansawdd a phrydlondeb yr adborth y maent yn ei dderbyn. Adolygir holiaduron cyflawn gan y Rheolwyr Maes Dysgu. Mewn rhai achosion, cesglir yr ymatebion, ac mae'r staff addysgu'n derbyn adborth meintiol, ond mae Rheolwyr Maes Dysgu eraill yn darparu adborth mwy cyffredinol.

2.96 Mae'r staff addysgu'n cwblhau adolygiadau modiwl lle maent yn myfyrio ar berfformiad y myfyrwyr a'u hadborth, sylwadau gan arholwyr allanol, ac unrhyw anawsterau sydd wedi codi yn ystod y ddarpariaeth. Mae'r rhain yn bwydo i mewn i adroddiadau monitro blynyddol, sy'n cael eu cwblhau gan arweinwyr cwricwlwm gyda chefnogaeth timau cwricwlwm, lle bo'n briodol, gan ddefnyddio templedi a ddarperir gan y corff dyfarnu. Mae'r adroddiadau monitro blynyddol yn gynhwysfawr, ac yn cynnwys dadansoddiad o berfformiad y myfyrwyr, sylwadau ar adroddiad yr arholwr allanol ac ymateb i faterion a godir, adborth gan gyflogwyr, adolygiad o gynllun gweithredu'r flwyddyn flaenorol, a chynllun gweithredu newydd ar gyfer y flwyddyn sy'n dod. Rhoddwyd nifer o enghreifftiau i'r tîm adolygu o newidiadau sydd wedi'u cyflwyno o ganlyniad i'r monitro blynyddol, sydd wedi cael effaith positif ar brofiadau dysgu'r myfyrwyr. Cyflwynir adroddiadau monitro blynyddol i bwyllgorau perthnasol y corff dyfarnu, ac ymdrinnir ag unrhyw gamau gweithredu gofynnol gan y swyddog cyswllt perthnasol.

2.97 Mae strwythurau adrodd y Coleg yn ei alluogi i oruchwyllo canlyniadau'r monitro blynyddol ac i ymateb i unrhyw faterion sy'n codi. Y Grŵp Cwricwlwm Addysg Uwch a Rheoli Ansawdd sy'n derbyn yr holl adroddiadau gan swyddogion cyswllt, arholwyr allanol a gwirwyr allanol, a'r holl adroddiadau monitro blynyddol. Mae'n adrodd i Dîm Rheoli'r Coleg, sydd hefyd yn derbyn data crynodedol am gadwraeth, cynnydd a dyfarniadau'r myfyrwyr. Mae dau brif gorff dyfarnu'r Coleg, PCYDDS a Phrifysgol De Cymru, yn gofyn i'r Coleg grynhof'r wybodaeth mewn adroddiad trosolwg sy'n cynnwys yr holl ddarpariaeth yn y Coleg y maent yn ei chymeradwyo.

Rhoddir ystyriaeth hefyd i'r adroddiadau hyn gan Dîm Rheoli'r Coleg ac Is-Bwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd corff llywodraethu'r Coleg.

2.98 Mae gan y Coleg strwythur adrodd diffiniedig ar gyfer ei raglenni addysg uwch sy'n diffinio aelodaeth a chylch gwaith yr amrywiol bwyllgorau perthnasol. Cynhyrchir 'dyddiaduron ansawdd' i sicrhau bod y timau cwrs yn ymwybodol o'r amserlen flynyddol o gyfarfodydd pwyllgorau. Ond, nid yw gweithdrefnau mewnol y Coleg ar gyfer monitro ac adolygu'r rhaglenni a'r modiwlau wedi'u dogfennu. Felly, mae'r tîm adolygu'n **argymhell** bod y Coleg yn diffinio'r prosesau mewnol, y rolau a'r cyfrifoldebau sy'n ymwneud â monitro ac adolygu'r rhaglenni, er mwyn sicrhau a gwella ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr.

2.99 Mae'r cyrff dyfarnu'n gyfrifol am sicrhau bod rhaglenni'n cael eu hadolygu'n gyfnodol yn unol â'u rheoliadau eu hunain. Ar amser yr adolygiad yma, dim ond un rhaglen sydd wedi bod yn gweithredu'n ddigon hir i wneud adolygiad cyfnodol yn ofynnol. Derbyniodd y rhaglen hon, rhaglen TBAR y Coleg sydd ar etholfraint gan Brifysgol De Cymru, ei adolygiad cyfnodol yn ystod y flwyddyn academiaidd 2013-14 a chafodd ei hadnewyddu'n llwyddiannus.

2.100 Nid oes unrhyw raglen wedi cael ei therfynu heb i drefniadau addas gael eu gwneud i unrhyw fyfyrwyr sy'n weddill. Yn unol â'i strategaeth o dynnu cymwysterau lefel 6 yn ôl oddi wrth golegau addysg bellach, mae Prifysgol De Cymru wedi tynnu ei rhaglen BA Tystysgrif Broffesiynol mewn Addysg yn ei hôl yn ddiweddar, ond trefnwyd yn gyntaf fod yr holl fyfyrwyr yn gallu cwblhau eu hastudiaethau yn y Coleg.

2.101 Mae'r Coleg yn gweithredu prosesau rheolaidd a systematig ar gyfer monitro ac adolygu rhaglenni, sy'n ei alluogi i gynnal safonau academiaidd a sicrhau a gwella'r cyfleoedd dysgu i'w fyfyrwyr. Er gwaethaf y gofyniad a nodir uchod i'r Coleg ddogfennu ei weithdrefnau mewnol yn fwy manwl, daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni

Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (B9): Mae gan ddarparwyr addysg uwch weithdrefnau i ymdrin ag apeliadau academiaidd a chwynion myfyrwyr am ansawdd y cyfleoedd dysgu; mae'r gweithdrefnau hyn yn deg, yn hygyrch ac yn amserol, ac yn galluogi gwelliant.

Cod Ansawdd, Pennod B9: Apeliadau Academiaidd a Chwynion Myfyrwyr

Y canfyddiadau

2.102 Mae'r Weithdrefn Gwyno ar gael ar wefan y Coleg ac yn llawlyfrau'r rhaglenni. Mae gwybodaeth am apeliadau ar gael ar wefan y Coleg neu yn llawlyfrau'r rhaglenni, sy'n cyfeirio myfyrwyr at bolisiau'r corff dyfarnu perthnasol.

2.103 Mae Gweithdrefn Gwyno'r Coleg yn glir a manwl, ac mae'n disgrifio cwmpas y polisi; y broses; y gofyniad i'r Coleg ymateb o fewn tair wythnos; ac mae'n cynnwys gwybodaeth am apeliadau. Mae gan y Coleg hefyd Bolisi Apelio sy'n amlinellu'r broses yn glir. Mae hawl gan y myfyrwyr wneud apêl i'r brifysgol bartner berthnasol ac, wedi hynny ym maes addysg uwch, i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol, os ydynt yn anfodlon gyda'r ffordd y cafodd eu cwyn ei thrin. Mae'r Polisi hefyd yn cyfeirio myfyrwyr at weithdrefnau eu cyrff dyfarnu ar gyfer apeliadau academiaidd.

2.104 Mae gan y Coleg weithdrefn gynhwysfawr ar gyfer apeliadau academiaidd, sy'n cael ei defnyddio'n bennaf ar gyfer myfyrwyr addysg bellach a'r rheiny sy'n astudio ar gyrsiau Pearson. Ar gyfer cyrsiau a ddyfernir gan PCYDDS a Phrifysgol De Cymru, mae'r Coleg yn cyfeirio myfyrwyr at bolisiau apelio'r cyrff dyfarnu. Mae llawlyfrau'r cyrsiau'n cynnwys dolenni at y polisiau hyn.

2.105 Byddai polisiau a phrosesau'r Coleg, a'r ffaith fod yr wybodaeth hon ar gael yn gyfleus i'r myfyrwyr, yn caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni.

2.106 Archwiliodd y tîm adolygu ddogfennau sy'n cynnwys polisiau a gweithdrefnau'r Coleg a'r cyrff dyfarnu ar gyfer cwynion ac apeliadau, a phrofodd y broses mewn cyfarfodydd gyda'r staff a'r myfyrwyr i ganfod sut y darperir y rhain i'r myfyrwyr.

2.107 Mae pob un o'r llawlyfrau'n cynnwys gwybodaeth am apeliadau sy'n benodol i'r corff dyfarnu perthnasol. Cyflwynir adroddiad ar gwynion i Is-Bwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd y Bwrdd Corfforaethol bob blwyddyn, sy'n rhestru'r cwynion a dderbyniwyd, y camau gweithredu a gymerwyd, ac ar ba gam y mae'r gŵyn o ran ei datrys.

2.108 Nid oedd y myfyrwyr y cyfarfu'r tîm adolygu â nhw'n glir ynglŷn â lle y byddent yn cael gafeael ar wybodaeth am gwynion ac apeliadau os byddai ei hangen arnynt, er eu bod yn teimlo'n hyderus y gallent ofyn i'w tiwtoriaid os byddent ei hangen.

2.109 Mae'r tîm adolygu'n fodlon bod y Coleg yn sicrhau bod ei drefn gwyno ac apelio ar gael. Mae nifer o gyfleoedd ar gael i roi gwybod i'r myfyrwyr am y broses. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni

Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (B10): Mae cyrff dyfarnu graddau'n cymryd y cyfrifoldeb pennaf am safonau academiaidd ac am ansawdd y cyfleoedd dysgu, lle bynnag y cânt eu darparu neu pwy bynnag sy'n eu darparu. Mae trefniadau ar gyfer darparu cyfleoedd dysgu gyda sefydliadau heblaw'r corff dyfarnu graddau wedi'u gweithredu'n gadarn a'u rheoli'n effeithiol.

Cod Ansawdd, Pennod B10: Rheoli Darpariaeth Addysg Uwch gydag Eraill

Y canfyddiadau

2.110 Mae gan y Coleg gytundebau i weithio mewn partneriaeth â nifer o gyrff dyfarnu: Prifysgol Abertawe, Prifysgol De Cymru a PCYDDS. Mae gan y Coleg hefyd femorandwm cyd-ddealltwriaeth mewn perthynas â'i ddarpariaeth Addysg Gychwynnol i Athrawon, sy'n gweithredu o dan nawdd Canolfan Addysg Athrawon De-orllewin Cymru. Mae'r Coleg hefyd yn darparu rhaglenni Cenedlaethol Uwch gyda Pearson.

2.111 Ymhob achos, rheolir ei waith gyda chyrff o'r fath gan ei femoranda cydweithrediad a'i gytundebau partneriaeth, ac, ar gyfer Pearson, gan fframweithiau a rheoliadau Pearson.

2.112 Dangosir cyfrifoldebau'r Coleg o dan y cytundebau hyn yn glir mewn rhestr wirio o gyfrifoldebau gan bob corff dyfarnu a Pearson.

2.113 Mae'r Coleg yn cynnig nifer o raglenni sy'n cynnwys elfennau dysgu seiliedig ar waith sydd, o dan rai amgylchiadau, yn elfennau gofynnol o'r rhaglen ac yn denu credyd academiaidd.

2.114 Mae partneriaeth y Coleg gyda'i gyrff dyfarnu a Pearson wedi'i hesbonio'n fanylach o dan Ddisgwyliadau A1 ac A2.1. Am fod y broses yn cael ei phenderfynu gan ei hamrywiol femoranda cydweithrediad a chytundebau sydd gan y Coleg gyda nhw, byddai'r agwedd hon o ddarparu addysg uwch mewn partneriaeth ag eraill yn caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni.

2.115 Mae gan y Coleg amrywiaeth eang o brosesau y mae'n eu dilyn i reoli dysgu seiliedig ar waith, ac mae nifer o'r prosesau hyn wedi'u halinio â gofynion y gwahanol gyrff dyfarnu a Pearson.

2.116 Profodd y tîm adolygu'r Disgwyliad drwy ystyried dogfen hunanwerthuso'r Coleg yn ofalus, a'i amrywiol femoranda cydweithrediad a chytundebau gyda'i gyrff dyfarnu a Pearson. Archwiliwyd y Disgwyliad mewn cyfarfodydd gyda'r staff uwch, y staff addysgu, a'r staff cymorth, mewn cyfarfodydd gyda'r myfyrwyr, ac mewn cyfarfod gydag un cyflogwr. Adolygodd y tîm adolygu hefyd ddogfennau a ddefnyddiwyd i weithredu prosesau dysgu seiliedig ar waith.

2.117 Mae gan y Coleg nifer o raglenni sy'n cynnwys gweithgareddau dysgu yn y gweithle ac mae nifer o raglenni rhan amser y Coleg yn cynnwys myfyrwyr sydd wedi'u cyflogi ar hyn o bryd ac sy'n gallu defnyddio eu profiad galwedigaethol yn ystod y cwrs. Er enghraifft, mae'r rhaglen Gradd Sylfaen mewn Datblygu a Rheoli Chwaraeon yn gofyn am 360 o oriau o ddysgu yn y gweithle diwydiannol mewn lleoliad chwaraeon neu hamdden, ac mae'r cwrs HND mewn Rheolaeth Sba, Trin Gwallt a Harddwch yn gofyn am ddiwrnod yr wythnos o ddysgu yn y gweithle mewn lleoliad galwedigaethol priodol.

2.118 Lle mae myfyrwyr yn dysgu yn y gweithle fel elfen hanfodol o'u cyrsiau, mae tîm y cwrs yn gweithio gyda'r myfyrwyr a'r darparwr dysgu seiliedig ar waith i drefnu'r lleoliad gwaith. Rhoddir pwyslais ar y myfyrwyr yn y cyswllt hwn, ac ystyrir hyn yn rhan o ddatblygiad eu sgiliau cyflogadwyedd. Cadarnhaodd y myfyrwyr bod y staff yn eu cefnogi lle bo'r angen.

2.119 Mae rhaglenni HNC a HND mewn peirianeg yn cynnwys myfyrwyr sydd hefyd yn cwblhau prentisiaethau. Mae'r elfen brentisiaeth yn gofyn am asesu yn y gweithle fel rhan

o'u hastudiaethau dysgu seiliedig ar waith. Gwneir trefniadau ar gyfer asesiadau o'r fath gan aseswyr dysgu seiliedig ar waith y Coleg.

2.120 Mae ystod gynhwysfawr o ddogfennau cefnogol ar gael gan y gwahanol gyrff dyfarnu i helpu staff y Coleg a'r myfyrwyr fel ei gilydd i baratoi ar gyfer, profi ac adolygu'r lleoliad gwaith. Yn bwysig iawn, mae hyn yn cynnwys cyfeiriad priodol at, ac ystyriaeth briodol o, iechyd a diogelwch y myfyrwyr yn y gweithle, er gwaethaf y ffaith fod y prif gyfrifoldeb ar ddarparwr y lleoliad gwaith.

2.121 Mae gwybodaeth ar gael hefyd i gyflogwyr am natur a disgwyliadau'r dysgu seiliedig ar waith.

2.122 Mae tîm y cwrs yn cymryd rhan mewn adolygiad ar ôl y lleoliad gwaith, mewn cydweithrediad â'r cyflogwr a'r myfyriwr, i ganfod beth aeth yn dda a'r meysydd y gellir eu gwella. Mae adroddiadau monitro blynyddol y rhaglenni hefyd yn rhoi sylwadau ar ddysgu seiliedig ar waith lle mae hyn yn elfen o'r rhaglen. Rhoddodd y myfyrwyr sylwadau positif am eu profiadau dysgu seiliedig ar waith ac ar y gefnogaeth a gawsent gan staff y Coleg ar yr agwedd hon o'u profiad dysgu.

2.123 Mae gan y Coleg brosesau ac adnoddau effeithiol i gefnogi'r myfyrwyr i ganfod a manteisio ar gyfleoedd dysgu seiliedig ar waith, sy'n cyfrannu at ddatblygu cyflogadwyedd y myfyrwyr. Mae'r prosesau hyn wedi'u halinio â gofynion y gyrff dyfarnu. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni

Lefel y risg: Isel

Disgwyliad (B11): Dyfernir graddau ymchwil mewn amgylchedd ymchwil sy'n darparu safonau academiaidd cadarn i wneud gwaith ymchwil a dysgu am agweddau, dulliau, trefnau a phrotocolau ymchwilio. Mae'r amgylchedd hwn yn cynnig y cyfleoedd a'r gefnogaeth o safon uchel i fyfyrwyr y maent eu hangen i sicrhau canlyniadau academiaidd, personol a phroffesiynol llwyddiannus yn eu graddau ymchwil.

Cod Ansawdd, Pennod B11: Graddau Ymchwil

Y canfyddiadau

2.124 Nid yw'r Coleg yn cynnig unrhyw raddau ymchwil, felly nid yw'r Disgwyliad hwn yn berthnasol.

Ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr: Crynodeb o'r canfyddiadau

2.125 Wrth benderfynu ar ei feirniadaeth am ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr, cyfatebodd y tîm adolygu ei ganfyddiadau â'r meini prawf a nodir yn Atodiad 2 y llawlyfr cyhoeddedig.

2.126 Mae'r holl Ddisgwyliadau ond un yn y maes yma wedi'u cyflawni, ac mae tair nodwedd o arfer da sy'n ymwneud â derbyn myfyrwyr, dysgu ac addysgu, ac ymgysylltu â myfyrwyr.

2.127 Gwneir pedwar argymhelliad mewn perthynas ag ansawdd y cyfleoedd dysgu. Mae tri ohonynt yn ymwneud â Disgwyliadau sydd wedi'u cyflawni ac sydd â risg isel: y dylid esbonio'r cyfleoedd i dderbyn cydnabyddiaeth am ddysgu blaenorol yn glir; y dylai'r Strategaeth Cynnwys Dysgwyr ymgysylltu myfyrwyr ar lefelau strategol a gweithredol; ac y dylai'r cyfrifoldebau o fewn y prosesau monitro ac adolygu gael eu disgrifio'n llawn.

2.128 Cododd yr argymhelliad a wnaed yn ymwneud â chymeradwyo rhaglenni o'r canfyddiad fod un rhaglen benodol wedi bod yn rhedeg am flwyddyn yn barod cyn iddi dderbyn cymeradwyaeth gan y sefydliad dyfarnu. Er bod hyn yn effeithio ar ran yn unig o ddarpariaeth y Coleg, ac er bod y gymeradwyaeth wedi'i sicrhau erbyn hyn, gallai'r oedi sylweddol fod wedi effeithio ar un grŵp penodol o'r myfyrwyr. Yn fwy na hynny, mae methiant y Coleg i gadw at ei drefn gymeradwyo ei hun yn y sefyllfa yma'n codi amheuan ynglŷn â pha mor drwyadl yw ei brosesau yn gyffredinol. Felly, nid yw Disgwyliad B1 wedi'i gyflawni, er yr asesir bod lefel y risg yn ganolog.

2.129 Ni ystyrir bod yr un Disgwyliad sydd heb ei gyflawni yn risg difrifol, a dim ond ar ran fechan o'r ddarpariaeth y mae'n effeithio. Mae pob un o'r Disgwyliadau eraill wedi'u cyflawni, ac mae'r pedwar argymhelliad wedi'u cydbwysu gan dair nodwedd o arfer da.

2.130 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod ansawdd y cyfleoedd dysgu yn y Coleg yn **cyflawni** disgwyliadau'r DU.

3 Y Feirniadaeth am: Ansawdd yr wybodaeth am y cyfleoedd dysgu

Disgwyliad (C): Mae darparwyr addysg uwch y DU yn cynhyrchu gwybodaeth i'w cynulleidfaoedd targed am yr addysg uwch y maent yn ei chynnig sy'n addas, yn hygyrch ac yn ddibynadwy.

Cod Ansawdd, Rhan C: Gwybodaeth am Ddarpariaeth Addysg Uwch

Y canfyddiadau

3.1 Mae'r Coleg yn darparu ystod o wybodaeth am ei ddarpariaeth addysg uwch i fyfyrwyr, staff a rhanddeiliaid allanol mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys mewn print ac mewn ffurfiau digidol. Yn tanategu'r cyfathrebu yma mae'r Canllawiau Marchnata ar gyfer Addysg Uwch a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Ymgyrchoedd Marchnata Addysg Uwch, sy'n alinio â'r Strategaeth ar gyfer Twf ym maes Addysg Uwch ac sy'n amlinellu'r targedau ar gyfer ehangu darpariaeth addysg uwch y Coleg.

3.2 Mae'r Coleg yn darparu gwybodaeth am ei ddarpariaeth addysg uwch yn bennaf drwy ei wefan a'r cardiau cwrs addysg uwch, sy'n rhoi manylion yr wybodaeth allweddol am bob cwrs. Mae'r timau rhaglen a'r Rheolwr Addysg Uwch yn gyfrifol am wirio cywirdeb yr wybodaeth am raglenni. Mae'r wybodaeth gyrsiol am ddarpariaeth y Coleg sydd ar etholfraint yn cael ei chymeradwyo gan y cyrff dyfarnu cyn ei chyhoeddi a chedwir at ganllawiau marchnata Pearson ar gyfer darpariaeth Pearson.

3.3 Byddai strategaethau marchnata'r Coleg sy'n benodol i addysg uwch yn caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni.

3.4 Profodd y tîm adolygu'r Disgwyliad drwy adolygu'r polisïau a'r gweithdrefnau, ynghyd â detholiad o'r wybodaeth a gyhoeddwyd, gan gynnwys yr wybodaeth sydd ar gael ar y we am y Coleg a'i ddarpariaeth addysg uwch. Archwiliodd y tîm gynnwys a hygyrchedd y wefan a derbyniodd ddangosiad o rith-amgylchedd dysgu'r Coleg a'r Cofnod Addasiadau a ddatblygwyd yn ddiweddar. Bu'r tîm hefyd yn trafod gyda'r myfyrwyr, y staff uwch, y staff academiaidd a'r staff cymorth proffesiynol pa mor effeithiol yw arferion a gweithdrefnau'r Coleg ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth.

3.5 Mae gan y Coleg Gynllun Gweithredu ar gyfer Ymgyrchoedd Marchnata Addysg Uwch a Chanllawiau Marchnata ar gyfer Addysg Uwch, sy'n cysylltu at y Strategaeth ar gyfer Twf ym maes Addysg Uwch. Mae gweledigaeth a gwerthoedd y Coleg, a'i holl bolisïau a gweithdrefnau, ar gael ar ei wefan. Mae'r Polisi Derbyn yn cyfeirio ymgeiswyr at Bolisi Apelio'r Coleg ar gyfer apelio yn erbyn penderfyniadau ar dderbyniadau, sydd ar gael ar wefan y Coleg. Nid yw'r polisi cydnabod dysgu blaenorol ar gael ar wefan y Coleg ac nid yw'n eglur sut y byddai ymgeiswyr yn cael gafael ar yr wybodaeth hon heblaw drwy wneud cais yn uniongyrchol i'r Coleg. Mae'r pwynt yma'n derbyn rhagor o sylw mewn perthynas â Disgwyliad B2. Mae polisïau'r cyrff dyfarnu ar gael ar wefannau'r prifysgolion perthnasol, ac mae llawlyfrau'r rhaglenni perthnasol yn cynnwys dolenni atynt.

3.6 Mae'r Coleg yn cwrdd â'r meini prawf perthnasol ar gyfer cyhoeddi'r Gyfres Wybodaeth Allweddol. Ond, ar amser yr adolygiad, cydnabu'r Coleg nad oedd wedi cyhoeddi ei offeryn Cyfresi Gwybodaeth Allweddol, fel yr oedd cylchlythyr gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru wedi'i gyfarwyddo, sy'n nodi bod yn rhaid cyhoeddi data Cyfresi Gwybodaeth Allweddol erbyn mis Medi 2015 er mwyn sicrhau bod gan ddarpar fyfyrwyr y manylion i gyd cyn gwneud dewisiadau am eu rhaglenni.

3.7 Mae'r Coleg yn cyhoeddi'r wybodaeth am gyrsiau ar gardiau cwrs, ar ei wefan ei hun a thrwy wefan UCAS. Mae'r Rheolwr Addysg Uwch, yr arweinwyr cwrs a'r cyrff dyfarnu'n gwirio ac yn cymeradwyo gwybodaeth gyhoeddedig yn ymwneud â'u cyrsiau perthnasol, ac yn datblygu canllawiau brandio i'r Coleg. Archwiliodd y tîm adolygu'r cardiau cwrs a'r gwefannau, a gwelodd wallau ac anghysonderau yn yr wybodaeth am y cyrsiau. Roedd gan rai o'r rhaglenni gradd sylfaen y teitlau anghywir ar y wefan ac roedd un esiampl benodol o anghysondeb yn yr wybodaeth am gyrsiau yn ymwneud â theitl y rhaglen Sba, Trin Gwallt a Harddwch oedd yn wahanol ar y cerdyn y cwrs ac ar wefan y Coleg fel y trafodwyd o dan Ddisgwyliad B2. Hysbysebwyd y cwrs fel HND Rheolaeth Sba, Trin Gwallt a Harddwch, ond enw'r dyfarniad gan Pearson yw HND Rheolaeth Trin Gwallt a Harddwch, ac nid yw'r Coleg yn darparu unrhyw rai o'r modiwlau dewisol sy'n ymwneud yn benodol â thrin gwallt. Roedd y staff y cyfarfu'r tîm adolygu â nhw'n hyderus nad oedd myfyrwyr a chyflogwyr yn cael eu camarwain ond roeddent yn cydnabod bod problem gyda theitl y dyfarniad, a fyddai'n cael ei datrys drwy recriwtio myfyrwyr i raglen gradd sylfaen newydd yn y dyfodol. Ond, ni allai'r tîm siarad gyda'r naill grŵp na'r llall i wirio'n annibynnol faint y maent yn ei ddeall o deitl neu gynnwys y dyfarniad. Gwnaed newidiadau i'r wybodaeth sydd ar gael i ddarpar fyfyrwyr, ac mae'r newidiadau hyn wedi egluro'r sefyllfa i ryw raddau. Ond, ar amser yr ymweliad adolygu, roedd hi'n bosib y gallai'r anghysonderau rhwng teitl y dyfarniad a hysbysebwyd, y cwrwllwm yr ymdriniwyd ag o a'r dyfarniad ei hun fod yn gamarweiniol i ddarpar fyfyrwyr a chyflogwyr.

3.8 Canfu'r tîm adolygu hefyd nad yw'r cardiau cwrs na'r wybodaeth am y cyrsiau ar wefan y Coleg yn nodi lle mae angen gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyn cael lle ar gwrs. Gallai hynny wrth gwrs effeithio ar oblygiadau'r ymgeiswyr o ran costau a mynediad. Gallai'r amryfusedd yma roi'r Coleg mewn sefyllfa lle mae'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd eisiau edrych i mewn i'r mater, er gwaethaf y ffaith fod y Coleg yn ymwybodol o ganllawiau'r Awdurdod. Mae dadansoddiad pellach o'r wybodaeth i ddarpar fyfyrwyr o dan Ddisgwyliad B2. Felly, mae'r tîm adolygu'n **argymhell** bod y Coleg yn sicrhau bod yr wybodaeth y mae'n ei rhoi i'w gynulleidfaoedd targed am y cyfleoedd dysgu y mae'n eu cynnig yn addas, yn hygyrch ac yn ddibynadwy.

3.9 Mae'r cyrff dyfarnu'n darparu templedi ar gyfer fformat llawlyfrau'r rhaglenni; ar gyfer darpariaeth y prifysgolion, mae'r llawlyfrau i'r myfyrwyr yn cynnwys dolenni at bolisïau eu cyrff dyfarnu, sy'n cynnwys eu polisïau ar apeliadau academiaidd, amgylchiadau lliniarol, a chamymddwyn academiaidd. Mae llawlyfrau'r rhaglenni'n cael eu gwirio gan y cyrff dyfarnu, ac mae'r Rheolwr Ansawdd yn gwirio'r llawlyfrau ar gyfer darpariaeth Pearson. Canfu'r tîm adolygu rai gwallau yn y llawlyfrau; er enghraifft, mae'r Llawlyfr Busnes a Chyfrifeg yn cyfeirio at Fusnes a Marchnata. Felly mae'n aneglur pa mor drwyadl y mae'r dogfennau hyn yn cael eu gwirio mewn gwirionedd.

3.10 Yn ddiweddar, mae'r Coleg wedi datblygu Cofnod Addasiadau i olrhain addasiadau i wybodaeth gyhoeddedig, ac i ddyrannu tasgau ac atebolrwydd. Mae'r cofnod wedi'i gynllunio mewn ffordd sy'n golygu mai dim ond y rheiny sy'n gyfrifol am bob maes unigol a'r staff uwch sy'n goruchwyllo sy'n gallu mynd i mewn iddo. Er bod y system yma yn ei dyddiau cynnar, derbyniodd y tîm adolygu adborth cadarnhaol gan y staff sy'n ei defnyddio ar lefel weithredol.

3.11 Yn ystod yr ymweliad adolygu, derbyniodd y tîm adolygu ddangosiad o rith-amgylchedd dysgu'r Coleg, sy'n glir ac yn hawdd ei lywio. Roedd sylwadau'r myfyrwyr yn gymysg ond, ar y cyfan, roeddent yn ei gael yn hawdd ei ddefnyddio. Nid oes gan y Coleg ganllawiau ar y safon ofynnol ar gyfer cyrsiau, sy'n golygu bod rhywfaint o anghysondeb yn y defnydd rhwng y cyrsiau. Mae gan rith-amgylchedd dysgu'r Coleg Barth Athrawon, sy'n rhan wedi'i neilltuo i'r rheiny sy'n darparu addysg uwch yn y Coleg. Caiff ei ddefnyddio fel ystorfa wybodaeth ac mae'n cynnwys deunyddiau megis y Cod Ansawdd. Clywodd y tîm am gynlluniau i ddefnyddio'r Parth Athrawon i ledaenu arferion da ar draws y gwahanol gyrsiau.

3.12 Yn dilyn cyfweiliad mynediad llwyddiannus, mae'r Coleg yn darparu llyfryn clir a manwl am ei gynnig addysg uwch, sy'n cynnwys gwybodaeth am Gyllid Myfyrwyr Cymru, Lwfans Myfyrwyr Anabl, cludiant i'r Coleg, a manylion y broses gofrestru. Nodir yn yr adroddiad yma, o dan Ddisgwyliad B2, bod y llyfryn yn arfer da. Mae rhagor o wybodaeth am y gefnogaeth y mae'r Coleg yn ei chynnig ar gael i'r ymgeiswyr sydd ei hangen yn yr adran Profiad Myfyrwyr ar y wefan. Mae'r adran hon hefyd yn cynnwys gwybodaeth am y cymorth i fyfyrwyr a'r bwrsariaethau sydd ar gael, yn ogystal ag UCAS, cyllid myfyrwyr, a chanllawiau ynglŷn â sut i ymgeisio am le ym maes addysg uwch.

3.13 Mae gan y Coleg y polisiau, y gweithdrefnau a'r canllawiau perthnasol i gyflawni'r Disgwyliad hwn. Fodd bynnag, mae anghysonderau o ran pa mor drwyadl y mae'r gweithdrefnau hyn yn cael eu dilyn. Enghraifft allweddol o hyn yw'r broses o wirio gwybodaeth gyhoeddedig, yn arbennig i ymgeiswyr, ac mae hyn yn ganolog i'r argymhelliad a wnaed yn y maes yma. Daeth y tîm i'r casgliad bod y Disgwyliad heb ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn ganolog.

Y Disgwyliad: Heb ei gyflawni
Lefel y risg: Canolog

Ansawdd yr wybodaeth am y cyfleoedd dysgu: Crynodeb o'r canfyddiadau

3.14 Wrth benderfynu ar ei feirniadaeth am ansawdd yr wybodaeth am y cyfleoedd dysgu, cyfatebodd y tîm adolygu ei ganfyddiadau â'r meini prawf a nodir yn Atodiad 2 y llawlyfr cyhoeddedig.

3.15 Nid yw'r Disgwyliad yn y maes beirniadaeth yma wedi'i gyflawni ac asesir bod lefel y risg cysylltiedig yn ganolog.

3.16 Mae un argymhelliad trosfwaol sef y dylai'r wybodaeth a ddarperir i'r holl gynulleidfaoedd targed fod yn addas, yn hygyrch ac yn ddibynadwy.

3.17 Mae'r gwendidau a ganfuwyd mewn perthynas â'r wybodaeth yn ymwneud yn bennaf gyda'r wybodaeth i ddarpar fyfyrwyr, cyflogwyr a'r cyhoedd, yn hytrach nag i'r myfyrwyr cyfredol: yn benodol y diffyg gwybodaeth ystadegol drwy'r offeryn Cyfresi Gwybodaeth Allweddol, anghysonderau rhwng teitlau'r cyrsiau a'r cymwysterau, a diffyg gwybodaeth am y gofynion gwirio gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd; mae hynny er gwaethaf yr arfer da a ganfuwyd mewn perthynas â Disgwyliad B2, sef y llyfryn am y cynnig addysg sy'n dangos bod y Coleg yn gallu cynhyrchu gwybodaeth effeithiol iawn i ddarpar fyfyrwyr a'u teuluoedd. Yn ogystal, mae'r datblygiadau yn y systemau technoleg gwybodaeth a'r prosesau goruchwyllo ar gyfer gwirio'r wybodaeth am gyrsiau, megis y Cofnod Addasiadau, yn dangos bod y Coleg wrthi'n datblygu strwythurau a phrosesau priodol er mwyn caniatáu i'r Disgwyliad hwn gael ei gyflawni.

3.18 Fodd bynnag, ar amser yr adolygiad, canfu'r tîm adolygu wendidau mewn perthynas â chywirdeb a chyflawnrwydd yr wybodaeth, a fyddai wedi gallu achosi camddealltwriaeth i'r ymgeiswyr a'r cyhoedd ehangach. Roedd y gwendidau felly'n dangos bod methiannau mewn perthynas â pha mor drwyadl y mae'r trefnau gwirio'n cael eu gweithredu a'u bod yn achosi risg canolog.

3.19 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod ansawdd yr wybodaeth am y cyfleoedd dysgu yn y Coleg yn **gofyn gwelliant i gyflawni** disgwyliadau'r DU.

4 Y Feirniadaeth am: Y gwelliant yn y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr

Disgwyliad (Gwelliant): Cymerir camau pwrpasol ar lefel y darparwr i wella ansawdd y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr.

Y canfyddiadau

4.1 Mae prosesau'r Coleg i ganfod themâu gwelliant wedi datblygu yn gyfochrog ag ehangiad ei bortffolio o raglenni addysg uwch. Mae targedau a dangosyddion penodol ar gyfer addysg uwch wedi'u cynnwys yn ei Gynllun Gweithredu Blynnyddol ac mae Strategaeth Addysg Uwch newydd wedi cael ei chymeradwyo'n ddiweddar. Gall themâu gwelliant ymddangos hefyd o'r prosesau monitro a gwerthuso blynnyddol, ac Arolwg Llais y Dysgwr. Mae'r cyfrifoldeb am hybu gwelliannau systematig o fewn portffolio addysg uwch y Coleg yn gorwedd yn bennaf gyda'r Grŵp Gweithrediadau Addysg Uwch, sy'n adrodd i'r Grŵp Cwricwlwm Addysg Uwch a Rheoli Ansawdd.

4.2 Byddai'r prosesau hyn yn caniatáu i'r Disgwyliad gael ei gyflawni.

4.3 Profodd y tîm adolygu'r Disgwyliad drwy adolygu strategaethau a chynlluniau gweithredu'r Coleg; adroddiadau monitro blynnyddol, adroddiadau'r arholwyr allanol a'r gwirwyr safonau; a chofnodion y pwyllgorau perthnasol. Cynhaliwyd trafodaethau hefyd gydag uwch reolwyr a staff addysgu'r Coleg.

4.4 Mae canlyniadau gwerthuso ac adolygu modiwlau gan y myfyrwyr a'r staff addysgu, ac mae adroddiadau'r arholwyr allanol a'r gwirwyr safonau, yn bwydo i mewn i'r prosesau monitro blynnyddol, fel y maent wedi'u disgrifio o dan Ddisgwyliad B8. Canlyniadau'r rhain yw cynlluniau gweithredu ar gyfer rhaglenni penodol ond gallent hefyd feithrin gwelliannau mewn rhaglenni eraill mewn mannau eraill yn y Coleg. Er enghraifft, yn dilyn y ffaith fod myfyrwyr ar y rhaglen Gradd Sylfaen mewn Gofal a Chymorth wedi tynnu sylw at anawsterau wrth geisio cael gafael ar adnoddau electronig, daeth i'r amlwg bod hwn yn fater sy'n effeithio ar y myfyrwyr i gyd sydd ar raglenni a gymeradwyir gan yr un corff dyfarnu. Codwyd y broblem ar lefel uwch gan y Rheolwr Addysg Uwch a'r Is-Bennaeth Gwasanaethau Academaidd ac yn y diwedd cafodd ei datrys er budd yr holl fyfyrwyr a effeithiwyd. Codwyd pryderon gan fyfyrwyr ar y rhaglen Gradd Sylfaen mewn Datblygu a Rheoli Chwaraeon am y diffyg lle penodol i'r dysgwyr addysg uwch yn y Coleg. Codwyd y mater yma hefyd gan arweinydd cwricwlwm yn y Grŵp Gweithrediadau Addysg Uwch. Mae'r Coleg yn cydnabod y mater yma fel blaenoriaeth yn awr ac mae ganddo gynlluniau i sefydlu canolfan addysg uwch newydd ar flaen Adeilad Tycoch, yn amodol ar ariannu a chaniatâd cynllunio.

4.5 Arolwg Llais y Dysgwr oedd yr arolwg penodol cyntaf a wnaed gan y Coleg ar draws ei holl ddarpariaeth addysg uwch llawn amser a rhan amser. Yn dilyn hyn, mae'r Coleg wedi dyfeisio Cynllun Gweithredu Llais y Dysgwr Addysg Uwch, yn pennu amcanion, gweithredoedd, cyfrifoldebau unigol a cherrig milltir i sicrhau bod y materion a godwyd yn derbyn sylw mewn da bryd.

4.6 Mae gan y Coleg eiriolwyr addysg uwch penodol i bob un o'i adrannau swyddogaethol. Mae'r rhain yn galluogi'r Coleg i bennu ac ymdrin yn fwy effeithiol ag anghenion penodol ei fyfyrwyr addysg uwch. Clywodd y tîm adolygu sut y mae'r eiriolwyr addysg uwch wedi gwella deunyddiau marchnata, ymwybyddiaeth y myfyrwyr o'r ffyrdd o gael cymorth ariannol, a chynrychiolaeth y myfyrwyr o fewn y Coleg. Mae rôl yr eiriolwyr addysg uwch, sy'n gwella'r cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr, yn **arfer da**.

4.7 Dim ond cyfranogaeth uniongyrchol gyfyngedig y mae'r Coleg wedi'i gael gyda'r rhaglen 'Cyfeiriadau'r Dyfodol ar gyfer Addysg Uwch yng Nghymru', er ei fod wedi ymdrin â rhai o'i themâu.

Gan adlewyrchu'r llinyn gwaith 'Dysgu ar gyfer Gwaith' yn y fenter 'Cyfeiriadau'r Dyfodol', mae'r mwyafrif o raglenni addysg uwch y Coleg yn alwedigaethol eu natur ac mae rhai'n caniatáu i'r myfyrwyr ennill cymwysterau ychwanegol. Er enghraifft, gall y myfyrwyr ar raglenni chwaraeon ennill cymwysterau ychwanegol fel hyfforddwyr campfa a stiwardiaid yn ogystal â'u dyfarniadau. Mae nifer o raglenni'r Coleg yn cynnwys elfennau dysgu seiliedig ar waith, gan adlewyrchu'r llinyn gwaith 'Dysgu mewn Gwaith'.

4.8 Hyd yn ddiweddar, dim ond cyfyngedig oedd ymwneud y Coleg â Fframwaith Safonau Proffesiynol y DU, ond cafwyd datblygiadau diweddar yn y maes yma. Er enghraifft, yn dilyn digwyddiad hyfforddi diweddar a drefnwyd mewn cydweithrediad ag un o'i gyrff dyfarnu, mae 12 aelod o'r staff yn mynd i sesiynau hyfforddi erbyn hyn gyda'r bwriad o gyflawni achrediad.

4.9 Ar amser yr adolygiad, nid oedd unrhyw un o raglenni llawn amser y Coleg wedi cwblhau cylch llawn. Felly, mae'r Coleg ar gam cynnar ar hyn o bryd yn nhermau pennu a gweithredu themâu gwelliant. Ond, mae gan y Coleg systemau a gweithdrefnau yn eu lle i alluogi i themâu o'r fath ddod i'r amlwg a chael sylw. Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Disgwyliad yn cael ei gyflawni, a bod lefel y risg cysylltiedig yn isel.

Y Disgwyliad: Wedi'i gyflawni

Lefel y risg: Isel

Y gwelliant yn y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr: Crynodeb o'r canfyddiadau

4.10 Wrth benderfynu ar ei feirniadaeth am y gwelliant yn y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr, cyfatebodd y tîm adolygu ei ganfyddiadau â'r meini prawf a nodir yn Atodiad 2 y llawlyfr cyhoeddedig.

4.11 Er nad yw addysg uwch wedi'i ddatblygu'n dda eto, ac mae'r broses o bennu a datblygu themâu gwelliant ar gam cynnar ar hyn o bryd, mae gan y Coleg Strategaeth Addysg Uwch a chynllun gweithredu gyda thargedau ar gyfer addysg uwch. Mae'n casglu themâu o'r adroddiadau monitro blynyddol ac Arolwg Llais y Dysgwr, ac mae wedi dyfeisio fersiwn o'r arolwg sy'n ymwneud yn benodol ag addysg uwch, a fydd â'i gynllun gweithredu ei hun.

4.12 Yn barod, mae canlyniadau o raglenni unigol wedi dod â newidiadau sydd wedi cael effaith bositif ar y portfolio addysg uwch ehangach. Yn ogystal, mae Rheolwr Addysg Uwch wedi cael ei benodi'n ddiweddar ac mae cynlluniau i adeiladu canolfan addysg uwch newydd. Mae penodi eiriolwyr addysg uwch, sy'n gofalu am fuddiannau'r myfyrwyr addysg uwch yn adrannau swyddogaethol y Coleg, wedi dod â gwelliannau amlwg ac wedi'i bennu'n nodweddiadol o arfer da.

4.13 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y gwelliant yn y cyfleoedd dysgu i'r myfyrwyr yn y Coleg yn **cyflawni** disgwyliadau'r DU.

5 Sylwadau am Ryngwladoli

Y canfyddiadau

5.1 Mae gan y Coleg adran ryngwladol benodol dan reolaeth rheolwr rhyngwladol ac mae ganddi statws trwydded lawn Haen 4. Mae hyn yn cynnwys cysylltiad ag asiantau trefnu rhyngwladol a threfnu llety mewn cartrefi preifat.

5.2 Mae gan y Rheolwr Rhyngwladol gyfrifoldeb gweithredol am ddarpariaeth ryngwladol y Coleg ac mae deon cyfadran yn arwain yn strategol. Ar hyn o bryd, mae'r garfan o fyfyrwyr addysg uwch rhyngwladol yn fach iawn. Mae'r Rheolwr Rhyngwladol a'r Rheolwr Addysg Uwch yn archwilio cyfleoedd ar hyn o bryd i gynyddu'r ddarpariaeth, yn arbennig gyda cholegau galwedigaethol partner yn Tsieina, ac mae'r Coleg yn ymgysylltu mewn prosiectau Erasmus Ewropeaidd.

5.3 Mae iaith a diwylliant Cymru, a lle Cymru yn y cyd-destun rhyngwladol, yn thema sydd wedi'i gynnwys hefyd yn holl ddarpariaeth addysg uwch y Coleg.

5.4 Ar gyfer rhaglenni a ddilysir gan Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, mae rhyngwladoli'n thema sy'n cael ei hystyried ymhob cynnig.

5.5 Mae'r staff addysgu'n manteisio ar gyfleoedd sy'n digwydd yn naturiol i archwilio dimensiynau rhyngwladol ac maent, er enghraifft, wedi defnyddio cyflogwyr, sefydliadau a gweithgareddau amlwladol yn yr ardal yn y cyswllt hwn. Mae teithiau astudio tramor yn cael eu trefnu ar rai o'r rhaglenni.

5.6 Mae meysydd eraill sy'n cael eu datblygu ochr yn ochr â chynnwys y rhaglen sy'n berthnasol berthnasol i'r pwnc yn cynnwys cyflogadwyedd a sgiliau astudio annibynnol. Trwy wneud hynny, mae'r Coleg yn rhoi'r gallu i fyfyrwyr gael gafael ar gyflogaeth dramor, yn arbennig mewn meysydd lle mae'r galw'n uchel megis peirianeg a chyfrifiadureg. Mae myfyrwyr yn cael eu helpu yn y cyswllt hwn gan, mewn rhai achosion, argaeledd y cymwysterau ychwanegol a gydnabyddir yn rhyngwladol, sy'n ategu eu gradd neu ddyfarniad Cenedlaethol Uwch.

Rhestr termau

Mae'r rhestr termau hon yn ganllaw cyfeirio cyflym i dermau yn yr adroddiad hwn sydd efallai'n anghyfarwydd i rai darllenwyr. Hefyd, rhoddir diffiniadau o dermau gweithredol allweddol ar dudalennau 22 i 24 y [llawlyfr Adolygiad Addysg Uwch: Cymru](#).

Os byddwch eisiau diffiniadau gweithredol ffurfiol o dermau eraill, gwelwch yr adran ar sicrhau safonau ac ansawdd: www.qaa.ac.uk/assuring-standards-and-quality.

Gallwch weld esboniadau hawdd eu defnyddio o amrediad eang o dermau yn y **Rhestr termau** hirach ar wefan ASA: www.qaa.ac.uk/Pages/GlossaryCY.aspx.

Arfer da

Proses neu ffordd o weithio sydd, ym marn tîm adolygu ASA, yn gwneud cyfraniad arbennig o bositif i reolaeth darparwr addysg uwch ar safonau academiaidd ac ansawdd ei ddarpariaeth addysgol. Caiff ei ddefnyddio fel term technegol ym mhrosesau adolygu ASA.

Canlyniadau dysgu

Yr hyn y disgwylir i ddysgwyr ei wybod, ei ddeall a/neu allu ei ddangos ar ôl cwblhau proses o ddysgu.

Corff dyfarnu graddau

Darparwr addysg uwch y DU (prifysgol fel arfer) sydd â'r pŵer i ddyfarnu graddau, ac mae'r pwerau yma wedi'u cyflwyno drwy Siarter Frenhinol, neu dan Adran 76 y Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, neu o dan Adran 48 y Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch (Yr Alban) 1992, neu drwy Fwla Pabaid, neu, ers 1999, drwy ddyfarniad y Cyfrin Gyngor ar gyngor ASA (mewn ymateb i geisiadau am bwerau dyfarnu graddau a addysgir, pwerau dyfarnu graddau ymchwil neu deitl prifysgol).

Credyd(au)

Ffordd o fesur a chydabod dysgu, a ddefnyddir gan y mwyafrif o sefydliadau sy'n darparu **rhaglenni astudio** addysg uwch, wedi'i fynegi fel nifer o gredydau ar lefel benodol.

Cyfleoedd dysgu

Y ddarpariaeth a wneir ar gyfer dysgu myfyrwyr, gan gynnwys astudiaeth a gynlluniwyd, addysgu, asesiad, cymorth academiaidd a phersonol, ac adnoddau (megis llyfrgelloedd a systemau gwybodaeth, labordai neu stiwdios).

Datganiad Meincnod Pwnc

Datganiad a gyhoeddwyd sy'n nodi pa wybodaeth, dealltwriaeth, galluoedd a sgiliau a ddisgwylir gan y rheiny sy'n graddio ymhob un o'r prif feysydd astudio (yn ymwneud gan fwyaf â graddau baglor), ac sy'n esbonio beth sy'n rhoi ei gydlynid a'i hunaniaeth i'r ddisgyblaeth arbennig honno.

Diffiniad gweithredol

Diffiniad ffurfiol o derm, sy'n sefydlu yn union beth mae ASA yn ei olygu wrth ei ddefnyddio mewn adolygiadau ac adroddiadau.

Disgwyliadau

Datganiadau yn y **Cod Ansawdd** sy'n nodi beth mae holl ddarparwyr addysg uwch y DU yn ei ddisgwyl ganddynt eu hunain ac felly gan ei gilydd, a'r hyn y gall y cyhoedd ei ddisgwyl ganddynt.

Dyfarniad dwbl neu ddyfarniad deuol

Rhoi dyfarniadau (a thystysgrifau) ar wahân ar gyfer yr un **rhaglen** gan ddau **gorff dyfarnu graddau** sydd wedi darparu'r rhaglen astudio sy'n arwain atynt ar y cyd. Gweler hefyd **dyfarniad lluosog**.

Dyfarniad

Cymhwyster, neu gredyd academiaidd, wedi'i gyflwyno i gydnabod yn ffurfiol bod myfyriwr wedi cyflawni'r **canlyniadau dysgu** a fwriedir a phasio'r asesiadau sy'n ofynnol i gwrdd â'r safonau academiaidd a osodir ar gyfer **rhaglen** neu uned astudio.

Dyfarniadau lluosog

Trefniant lle mae tri **chorff dyfarnu graddau** neu fwy yn darparu, gyda'i gilydd, un **rhaglen** (neu raglenni) a ddarperir ar y cyd sy'n arwain at **ddyfarniad** ar wahân (a thystysgrif ar wahân) gan bob un o'r cyrff dyfarnu. Mae'r trefniant yr un fath ag ydyw ar gyfer **dyfarniadau dwbl/deuol**, ond gyda thri chorff dyfarnu neu fwy'n cymryd rhan.

Dysgu cyfunol

Dysgu a ddarperir drwy nifer o wahanol ddulliau, sydd fel arfer yn cynnwys dysgu wyneb yn wyneb ac e-ddysgu (gweler **dysgu gyda chymorth technoleg**).

Dysgu gyda chymorth technoleg (neu e-ddysgu)

Dysgu a ddarperir neu a gefnogir drwy ddefnyddio technoleg.

Dysgu hyblyg a dosranedig

Rhaglen neu fodiwl nad yw'n gofyn i'r myfyriwr fynychu dosbarthiadau neu ddigwyddiadau ar amseroedd ac mewn lleoliadau penodol. Gweler hefyd **dysgu o bell**.

Dysgu o bell

Cwrs astudio nad yw'n cynnwys cysylltiad wyneb yn wyneb rhwng myfyrwyr a thiworiaid ond, yn lle hynny, mae'n defnyddio technoleg megis y rhyngwyd, mewnrwydi, cyfryngau darlledu, CD-ROM a fideo, neu ddulliau traddodiadol o ohebu - dysgu 'o bell'. Gweler hefyd **dysgu cyfunol**.

e-ddysgu

Gweler **dysgu gyda chymorth technoleg**.

Ehangu cyfranogaeth

Cynyddu cyfranogaeth pobl o amrediad ehangach o gefndiroedd mewn addysg uwch.

Fframwaith cymwysterau addysg uwch

Strwythur ffurfiol cyhoeddedig sy'n pennu hierarchaeth lefelau cymwysterau cenedlaethol ac yn disgrifio'r cyflawniad cyffredinol a ddisgwylir gan ddalwyr y prif fathau o gymhwyster ar bob lefel, a thrwy hynny helpu darparwyr addysg uwch i gynnal safonau academiaidd. Mae ASA yn cyhoeddi'r fframweithiau dilynol: *Y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon* (FHEQ) a'r *Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Sefydliadau Addysg Uwch yn yr Alban* (FQHEIS).

Fframwaith

Strwythur ffurfiol cyhoeddedig. Gweler hefyd **fframwaith cymwysterau addysg uwch**.

Gwelliant

Y broses y mae darparwyr addysg uwch yn ei defnyddio i wella ansawdd y ddarpariaeth yn systematig a'r ffyrdd y mae addysg myfyrwyr yn cael ei chefnogi. Caiff ei ddefnyddio fel term technegol yn ein prosesau adolygu.

Gwybodaeth gyhoeddus

Gwybodaeth sydd ar gael yn rhwydd i'r cyhoedd (y cyfeirir ati weithiau fel bod 'yn eiddo i'r cyhoedd').

Manylebau rhaglen

Datganiadau wedi'u cyhoeddi am y **canlyniadau dysgu** y bwriedir eu sicrhau o'r rhaglenni astudio, yn cynnwys gwybodaeth am ddulliau dysgu ac addysgu, dulliau cymorth ac asesu, a sut mae unedau unigol yn berthnasol i lefelau cyflawniad.

Pwyntiau cyfeirio

Datganiadau a chyhoeddiadau eraill sy'n sefydlu meini prawf y gellir mesur perfformiad yn eu herbyn.

Rhaglen (astudio)

Cwrs astudio cymeradwy sy'n darparu profiad dysgu cydlynol ac sydd fel arfer yn arwain at gymhwyster.

Rhith-amgylchedd dysgu (RhAD)

Mewnrwyd neu wefan ryngweithiol sydd wedi'i diogelu gan gyfrinair (cyfeirir at hwn hefyd fel platform neu ryngwyneb defnyddiwr) sy'n rhoi mynediad yn electronig i **gyfleoedd dysgu**. Gallai'r rhain gynnwys adnoddau megis llawlyfrau cwrs, gwybodaeth a rhestrau darllen; blogiau, byrddau neges a fforymau; darlithoedd wedi'u recordio; a/neu gyfleusterau ar gyfer seminarau ar-lein (gweminarau).

Safon academiaidd trothwy

Y lefel isaf o gyflawniad sy'n dderbyniol y mae'n rhaid i fyfyrwr ei dangos er mwyn bod yn gymwys i dderbyn **dyfarniad** academiaidd. Mae safonau academiaidd trothwy wedi'u disgrifio yn y **fframweithiau** cenedlaethol a'r **Datganiadau Meincnod Pwnc**.

Safonau academiaidd

Y safonau a osodir gan **gyrff dyfarnu graddau** ar gyfer eu cyrsiau (rhaglenni a modiwlau) a'r safonau a ddisgwyllir ar gyfer eu dyfarniadau. Gweler hefyd **safon academiaidd trothwy**.

Y Cod Ansawdd

Term byr am God Ansawdd Addysg Uwch y DU, sef y gyfres i'r DU gyfan o **bwyntiau cyfeirio** i ddarparwyr addysg uwch (y cytunwyd arnynt drwy ymgynghoriad gyda'r gymuned addysg uwch, a'i gyhoeddi gan ASA), sy'n nodi'r **Disgwyliadau** y mae gofyn i bob darparwr eu cyflawni.

QAA1755b - R4706 - Hydref 16

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2016
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw GL1 1UB
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786

Ffôn: 01452 557050
Gwefan: www.qaa.ac.uk